USPG PARTNERS IN GLOBAL MISSION

# GWEDDÏO GYDA'R EGLWYS FYD-EANG

## GWEDDÏAU A MYFYRDODAU GAN Y CYMUNDEB ANGLICANAIDD O GWMPAS Y BYD




30 TACHWEDD 2025 – 30 MAI 2026



USPG yw'r asiantaeth genhadol Anglicanaidd sy'n partneru gydag eglwysi a chymunedau ar draws y byd, gan adleisio galwad Duw i fywhau ffydd, cryfhau cyd-berthynas, datgloi potensial a sefyll dros gyfiawnder. Fe'n sefydlwyd ym 1701.

Rydym yn llawen iawn i fedru cynnig y dyddiadur gweddi hwn i chi yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, fe fyddwch yn ymwybodol fod costau argraffu a phostio yn dal i gynyddu. Efallai y byddech yn hoffi ystyried gwneud cyfraniad fyddai'n helpu cyfarfod â chostau cynhyrchu'r dyddiadur gweddi hwn. Gallwch wneud hynny yma: www.uspg.org.uk/donate.

Os hoffech archebu copïau ychwanegol i'ch eglwys neu'ch cylch bach chi, gallwch gysylltu â ni drwy ymweld â www.uspg.org.uk/pray.

Mae croeso i chi ddefnyddio'r adnodd hwn ar gyfer addoliad cyhoeddus.

Cyfieithwyd i'r Gymraeg gan Noel Davies.

Daw adnodau Beiblaidd o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig (2004) oni nodir yn wahanol.

Noder nad yw barn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn yn cynrychioli safbwynt swyddogol USPG o angenrheidrwydd.

# CYFLWYNIAD

**Croeso i'r rhifyn newydd hwn o ddyddiadur gweddi USPG.**

Mae'n gyffrous i gael cynnig y cymorth hwn i gynnal eich bywyd Cristnogol. Fe glywn mor aml pa mor bwysig yw'r dyddiadur gweddi hwn i gefnogwyr USPG, fel chi. Sut bynnag a lle bynnag y byddwch yn gweddïo, diolch am bartneru gyda ni a gyda'r Eglwys fyd-eang.

Wrth i ni wneud ein ffordd drwy Adfent i mewn i dymor cysegredig y Grawys byddwn yn symud o amgylch yr Eglwys fyd-eang er mwyn ysbrydoli'n meddwl, ein gweddi a'n gweithredu. Cadwch lygad ar agor am gyfranwyr fel Archesgob Marinez Bassotto, sy'n sôn am weinidogaeth Eglwys Anglicanaidd Brasil yn yr Amazon, a'r Parchg Mauricio Mugunhe, sy'n sôn am raglen deilwra gyffrous yn Nhalaith yr Eglwys Anglicanaidd ym Mozambique ac Angola.

Byddwn hefyd, bron bob Sul, yn eich cymell i ddarllen a myfyrio ar y darlleniad o'r Efengylau fydd wedi ei osod yn The Revised Common Lectionary 2025 a 2026 © SPCK.

Rydym am roi sylw arbennig i waith rhyfeddol yr Eglwys Anglicanaidd yn Tanzania, sy'n hyrwyddo beichiogrwydd sy'n rhydd o HIV. Cewch gyfarfod â Dr Albert Chalinzee yn Ysbyty Genhadol Mvumi a dysgu sut mae'r tîm yn arwain gyda ffydd, tosturi a dyfalbarhad. Dewch o hyd i fwy o wybodaeth ac, os gallwch, ystyriwch gyfrannu at yr Apêl Nadolig ar **christmas.uspg.org.uk**.

Diolch unwaith eto am bartneru gydag USPG ac ymuno â ni ar ein cenhadaeth o fywhau ffydd, cryfhau cydberthynas, datgloi potensial, a hyrwyddo cyfiawnder, drwy bartneriaethau Eglwysig ar draws y Cymundeb Anglicanaidd. Pob bendith arnoch,

**Rachel Weller**
Swyddog Cyfathrebu, USPG

# CYFARFOD Â'N CYFRANWYR

**Ni fyddai'r dyddiadur gweddi hwn yn bod oni bai am gyfraniadau meddylgar gan ein partneriaid ar draws y byd. Rydym yn wir ddiolchgar iddynt. Da chi, cofiwch amdanynt wrth i chi weddïo.**



## Y PARCHEDICAF MARINEZ BASSOTTO

Y Parchedicaf Marinez Bassotto yw Archesgob Igreja Episcopal Anglicana do Brasil ac Esgob Amazônia, esgobaeth sy'n ymestyn dros bum talaith yng Ngogledd Brasil. Hi yw'r ferch gyntaf i'w hethol a'i chysegru yn esgob yn Brasil a'r ferch gyntaf i fod yn Archesgob yn hemisffer y de o'r Cymundeb Anglicanaidd. Caiff ei chydnabod am ei harweiniad gyda mentrau bugeiliol, cymunedol ac amgylcheddol.



## Y PARCHEDIG MAURICIO MUGUNHE

Y Parchedig Mauricio Mugunhe yw Cyfarwyddwr Gweithredol Acção Social Anglicana (Gweithredu Cymdeithaol Anglicanaidd). Cyn hynny, roedd yn Gydlynydd Ffydd a Datblygiad World Vision. Yn awr, y mae'n gwasanaethu yn Esgobaeth Lebombo, sy'n cynnwys prifddinas Mozambique, Maputo (Talaith Eglwys Anglicanaidd Mozambique ac Angola). Cyfuna ei rôl ddatblygiad ffydd-seiliedig, cyfiawnder cymdeithasol a chyfnerthu cymunedol ar draws talaith fwyaf newydd y Cymundeb Anglicanaidd.



## Y PARCHG NELI MIRANDA

Mae'r Parchedig Neli Miranda yn ficer a ordeiniwyd yn Guatemala, sy'n gwasanaethu cynulleidfa Eglwys Sant Iago yr Apostol yn Ninas Guatemala, ac yn goruchwylio cwricwlwm Seminari Santo Tomás Apóstol. Mae hefyd yn Athro Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Mariano Gálvez Guatemala ac yn cwblhau ei doethuriaeth ar y ddealltwriaeth o dlodi mewn traddodiadau Cristnogol gwahanol.



## DR SANJANA DAS

Diwinydd ffeministaidd Indiaidd ac ymchwilydd annibynnol yw Dr Sanjana Das, sy'n byw a gweithio yn Singapore. Mae Sanjana yn cyfuno diwinyddiaeth, polisi ac arfer i hyrwyddo urddas merched sy'n cael eu masnachu ac yn gorfod mudo. Gyda Ph.D. o Brifysgol KwaZulu-Natal, mae hefyd yn gyd-olygydd y gyfrol Decolonising Development and Religion (SCM, 2025). Mae wedi bod yn gweithio ar bwnc masnachu pobl am dros ugain mlynedd fel gweithwraig datblygiad, ymchwilydd, ymgynghorydd a thrwy siarad cyhoeddus.



## Y PARCHEDIG KENSON LI

Mae'r Parchedig Kenson Li yn gurad cynorthwyol Cadeirlan Manceinion, yn Esgobaeth Manceinion, Eglwys Loegr. Ers Gorffennaf 2025, gwasanaethodd fel un o ymddiriedolwyr USPG. Yn wreiddiol o Hong Kong, cafodd ei hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth ordeiniedig yng Ngholeg yr Atgyfodiad, Mirfield, ac mae ganddo angerdd dros rannu'r Efengyl drwy wasanaeth cariadus a bod yn lladmerydd dros gynhwysiad llawn mewn eglwys a chymdeithas.

## DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# TACHWEDD 30-RHAGFYR 6

## MAE'R DEYRNAS I BAWB

**Y Parchg Magela - Ficer Plwyf Cristo Redentor yn Tocantins, Brasil a chydlynydd Casa A+, sy'n fangre gobaith a iachâd i bobl yn byw gydag HIV**

Darllenwch Luc 14:21-23

Gyfeillion annwyl, mae'r geiriau hyn o eiddo Iesu yn gri yn erbyn unrhyw bolisi sy'n cau allan, yn condemnio, neu'n tawelu lleisiau. Pan fyddwn yn gwrthod gofal i'r sawl sydd fwyaf ei angen – pobl sy'n byw gyda HIV/AIDS, poblogaethau digartref, gweithwyr yn y diwydiant rhyw, ieuenctid du, pobl trans, pobl sy'n byw ar y cyrion – rydym yn gwadu'r Efengyl ei hun.

Nid adeiladu muriau yw'n galwad fel Eglwys, ond agor llwybrau. Nid bwydo stigma, ond iachau clwyfau. Pan mae cyfreithiau'n criminaleiddio cyrff a hunaniaethau poblogaethau allweddol, caiff y Deyrnas ei chlwyfo. Pan dorrir grantiau, caiff gras ei wrthod. Pan mae rhagfarn yn penderfynu pwy sy'n byw a phwy sy'n marw, rhaid i ni godi'n lleisiau gydag awdurdod ysbrydol a bugeiliol.

Rwyf wedi gweld nifer o bobl yn dod i Casa A+ yn dioddef o ganlyniad i flynyddoedd o gam ddeiagnosis a gwaethygiad iechyd difrifol. Daw pobl fel Sinval a Sinair atom yn dioddef gwaethygiad cyflym yn eu hiechyd, ond rydym yn ddiolchgar ein bod yn dal i fedru eu helpu.

Ein nod pennaf yw nid yn unig i arbed marwolaethau o ganlyniad i AIDS, ond hefyd i frwydro yn erbyn y stigma a'r ynysu cymdeithasol y mae'n eu hachosi. Yn Casa A+, ceisiwn gynnig bywyd, urddas, ac atgyfnerthiad i'r rhai a effeithir, gan drawsnewid digalondid yn obaith.

**Llun: Y Parchg Magela gyda Nombeko Mpongo o Sefydliad Iechyd Desmond Tutu yng nghyfarfod y Gymdeithas AIDS Ryngwladol yn Kigali, Rwanda.**



# GWEDDÏO

## SUL TACHWEDD 30 / SUL CYNTAF ADFENT

Darllenwch a myfyriwch ar Mathew 24:36-44

## DYDD LLUN, RHAGFYR 1 – DYDD BYD-EANG AIDS / GŴYL SANT ANDREAS

Gweddïwn dros bawb sy'n byw gydag HIV/AIDS. Boed iddynt dderbyn gofal tosturiol, triniaeth effeithiol a chael eu hamddiffyn rhag stigma'r clefyd.

## DYDD MAWRTH, RHAGFYR 2

Gweddïwn am gyfiawnder mewn gofal iechyd cyhoeddus, fel bod gofal a thriniaeth HIV/AIDS yn cyrraedd pawb sydd mewn sefyllfaoedd bregus, a bod meddyginiaeth hollbwysig ar gael i bawb sydd eu hangen yn rhad ac am ddim.

## DYDD MERCHER, RHAGFYR 3

Gweddïwn am ddiwedd ar griminaleiddio poblogaethau allweddol, fel na bydd unrhyw gyfraith yn condemnio pobl y maent yn eu caru, sut y maent yn byw na ble maent yn byw – fel bod urddas yn goresgyn gwahaniaethiad.

## DYDD IAU, RHAGFYR 4

Gweddïwn am i'r Eglwys barhau'n ddiysgog yn ei chenhadaeth broffwydol, gan beidio bod yn dawedog, gan groesawu heb farnu, a gwarchod bywyd gyda dewrder yn wyneb strwythurau sy'n cau allan.

## DYDD GWENER, RHAGFYR 5

Gweddïwn dros weithwyr iechyd a'u cymunedau, yn arbennig mewn ardaloedd bregus, am iddynt dderbyn y gofal, y gefnogaeth a'r adnoddau angenrheidiol.

## DYDD SADWRN, RHAGFYR 6

Gweddïwn am ddewrder a thosturi mewn polisïau cyhoeddus, fel bod llywodraethau, sefydliadau a mudiadau rhyngwladol yn rhoi blaenoriaeth i fywyd yn hytrach nag elw, a gofal yn hytrach na grym.



MYFYRDOD

# RHAGFYR 7-13

## DIGONEDD DWYFOL

**Y Parchg Neli Miranda – Ficer Eglwys Sant Iago yr Apostol yn Ninas Guatemala ac Athro Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Mariano Gálvez**

Yn Guatemala, cymunedau Pentecostalaidd yw'r presenoldeb Cristnogol mwyaf a'r un sy'n tyfu gyflymaf. Fel aelod o'r Comisiwn Rhyngwladol rhwng Anglicaniaid a Phentecostaliaid, roeddwn am glywed mwy am ymatebion yr Eglwys Bentecostalaidd i dlodi a beth y gallwn ni fel Anglicaniaid ddysgu o hyn. Yn Guatemala, mae tlodi yn  effeithio ar bron 60% o'r boblogaeth. Ond, er bod amodau cyflogi yn fregus a gofal iechyd yn gyfyngedig, roedd 88% o'r rhai a gyfwelwyd yn fy ymchwil yn ystyried nad oeddent yn dlawd.

Mae hyn yn adlewyrchu 'Diwinyddiaeth Digonedd Dwyfol', wedi ei wreiddio yn Philipiaid 4.13: 'Y mae gennyf gryfder at bob gofyn trwy'r hwn sydd yn fy nerthu i.' I gredinwyr, o'u perthynas â Duw y daw eu hurddas yn hytrach nag o'u heiddo, ac mae ffydd yn rhoi iddynt nerth, ystyr a hunaniaeth ynghanol prinder.

Cydnebydd credinwyr hefyd fod llygredd a cham-reolaeth yn achosion caledi yn Guatemala. Tuedda'r prif draddodiad diwinyddol i feddwl yn nhermau dwy sffêr wahanol: dylai'r eglwys drawsnewid calonnau, tra mai'r wladwriaeth ddylai ddiwygio strwythurau. Credir y dylai ffydd ysgogi gwaith caled ymhlith unigolion ac, yn gymunedol, dylai eglwysi sicrhau bwyd, lloches a gofal lle mae angen. Mae'r agwedd hon at yr eglwys yn creu problem. Er bod credinwyr yn dyheu am eglwys sy'n condemnio anghyfiawnder ac "yn dysgu pobl sut mae pysgota", gan amlaf mae'r eglwys yn canolbwyntio ar gymorth uniongyrchol – ar "roi pysgod".

Mae arnom angen gweledigaeth fwy, fyddai'n alwad i'r Eglwys gyfan yn Guatemala i barhau i fod yn lloches i rai mewn angen, ond hefyd i fod yn llais proffwydol yn erbyn anghyfiawnder. Trwy ras Duw sy'n ein nerthu ni.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, RHAGFYR 7 – AIL SUL ADFENT

Darllenwch a myfyriwch ar Mathew 3:1-12

## DYDD LLUN, RHAGFYR 8

Arglwydd, y mae dy air yn dweud, “Y mae Duw yn amddiffyn achos y tlawd a’r anghenus” (Salm 140:12). Cysura a nertha bob person sy’n dioddef tlodi yn Guatemala, a boed i’th gyfiawnder a’th gariad a’th adnewyddiad ddwyn gobaith i’w cymunedau

## DYDD MAWRTH, RHAGFYR 9

Gweddïwn am i holl Gristnogion Guatemala gael nerth i wrthsefyll. Boed i’r Ysbryd nerthu, cywiro a donio pawb sy’n credu, er mwyn i ogoniant Crist fod yn hysbys.

## DYDD MERCHER. RHAGFYR 10 – DYDD HAWLIAU DYNOL

Ar Ddydd Hawliau Dynol, gweddïwn dros bawb y mae eu hawliau yn cael eu gwrthod. Cofiwn i Iesu sefyll gyda’r gorthrymedig, gwarchod y rhai a wrthodwyd, iachau’r afiach, a llefaru’r gwir wrth y grymus. Boed i ni ddilyn ei esiampl, gan amddiffyn y bregus, a cheisio cyfiawnder, a dwyn gobaith i’r rhai y mae eu hurddas yn cael ei anwybyddu.

## DYDD IAU, RHAGFYR 11

Gweddïwn am weledigaeth broffwydol i’r Eglwys. Boed i’r Ysbryd Glân alw Cristnogion Guatemala o’r newydd i gydnabod fod ffydd yn gofyn am fynd i’r afael â’r union strwythurau sy’n medru achosi dioddefaint.

## DYDD GWENER, RHAGFYR 12

Gweddïwn am gyfiawnder yn Guatemala, gan ddeisyf y bydd arweinwyr yn gweithredu gydag uniondeb, yn rhoi terfyn ar lygredd, ac yn hyrwyddo polisïau sy’n caniatáu i bawb fyw gydag urddas.

## DYDD SADWRN, RHAGFYR 13

Gweddïwn am i Ysbryd Solidariaeth dyfu ymhlith cymunedau Cristnogol, ac y bydd i hyn leddfu anghenion y foment yn ogystal â bod yn rym i drawsnewid cymdeithas.

# RHAGFYR 14-20

## YR EGLWYS AR Y DŴR

DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

**Y Chwaer Veronica – Cymuned Chwiorydd yr Eglwys yn Melanesia**

Fy mraint yw cael gwasanaethu maes cenhadol eang ac amrywiol. Fel Chwaer Daleithiol Cymuned Chwiorydd yr Eglwys, gyda'm cyd-chwiorydd rwy'n gwasanaethu Eglwys Anglicanaidd Melanesia (EAM), a elwir weithiau 'yr eglwys ar y dŵr', sy'n ymestyn ar draws mwy na 1000 o ynysoedd yn Vanuatu ac Ynysoedd Solomon.

Mae llawer ffurf ar ein gweinidogaeth. Ym mhencadlys ein cymuned, Tetete Ni Kolivuti, rydym yn cynnig enciliau a lletygarwch. Yn 2025, bu i EAM gynnal ei Synod Gyffredinol yno. Ond rydym hefyd yn croesawu staff o'r brifysgol leol, arweinwyr o'r Eglwys Gatholig Rufeinig, ac unrhyw un sy'n dymuno gorffwys, neu gyfle am fyfyrdod a chydweithio.
Rydym yn cynnal ysgol i blant sy'n byw ar y planhigfeydd cnau coco a choco gerllaw Tetete Ni Kolivuti, na fyddent, heblaw am y cyfle hwn, yn medru derbyn addysg.

Yng Nghanolfan Gofal Cristnogol Honiara, rydym yn cefnogi gwragedd a phlant sydd wedi dioddef trais domestig, gan gynnig iddynt lety diogel, prydau bwyd cymunedol, a gweinidogaeth gweddi. Dyma'r unig sefydliad o'i fath yn y wlad.

Rydym hefyd yn mynd ar deithiau cenhadol i ynysoedd am hyd at dri mis, yn teithio o ynys i ynys i ymweld â'r henoed a'r afiach, arwain astudiaethau Beiblaidd ac addoliad, a rhannu ffordd o fyw y Chwiorydd. Y mae'n fywyd o wasanaeth, wedi ei wreiddio mewn ffydd ac yn cael ei lywio gan anghenion y cymunedau y cawn y fraint o'u gwasanaethu.





# GWEDDÏO

## DYDD SUL, RHAGFYR 14 – TRYDYDD SUL ADFENT

Darllenwch a myfyriwch ar Mathew 11:2-11

## DYDD LLUN, RHAGFYR 15

Gweddïwn dros y rhai sy'n ceisio encilio yn Tetete Ni Kolivuti. Boed iddynt ddod o hyd i orffwys, cyfarwyddyd, ac adnewyddiad ysbryd wrth iddynt fyfyrio a dod yn agosach at Dduw.

## DYDD MAWRTH, RHAGFYR 16

Gweddïwn dros yr ysgol yn Tetete Ni Kolivuti, dros y Chwiorydd sy'n dysgu yno a thros y plant sy'n ei mynychu. Gwarchod nhw yn ystod cyfnod y monsŵn, a boed i'r glaw fod yn dyner fel y gall y dysgu barhau'n ddiogel. Boed i'r plant dyfu mewn gwybodaeth, ffydd a gobaith.

## DYDD MERCHER, RHAGFYR 17

Gweddïwn dros y Ganolfan Gofal Cristnogol yn Honiara a'r gwragedd a'r plant sy'n ffeindio noddfa yno. Boed iddynt brofi diogelwch, iachâd a gobaith, a boed i'r Chwiorydd gael eu hatgyfnerthu gyda thosturi a doethineb.

## DYDD IAU, RHAGFYR 18

Gweddïwn dros y Chwiorydd wrth iddynt deithio ar draws yr ynysoedd mewn cychod, canŵ ac ar droed. Boed i'w siwrneiau fod yn ddiogel, a boed i'w gofal bugeiliol, eu hyfforddiant ysgrythurol, a'u tystiolaeth, fod yn galondid ac yn anogaeth i gymunedau ynysig.

## DYDD GWENER, RHAGFYR 19

Gweddïwn dros y cymunedau ehangach y mae'r Chwiorydd yn eu gwasanaethu. Boed i deuluoedd, henoed a ieuenctid gael eu cynnal, eu meithrin a'u hysbrydoli gan ffydd a gofal y Chwiorydd.

## DYDD SADWRN, RHAGFYR 20

Diolchwn i ti, Arglwydd, am y Chwiorydd. Cynnal nhw mewn corff, meddwl ac ysbryd, ac arwain nhw â'th gariad ar bob siwrnai, pob ymweliad a phob gweithred o wasanaeth ar draws yr ynysoedd.

DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# RHAGFYR 21-27

## CARIAD YN DWYN BYWYD YN TANZANIA

**Imran Englefield – Rheolwr Rhoddi Unigol**

Wrth i ni nesáu at y Nadolig, tymor gobaith, disgwyl a golau, byddwn yn canolbwyntio ar Eglwys Anglicanaidd Tanzania a'i gwaith effeithiol yn dwyn gofal, diogelwch a gobaith i famau a'u babanod.

Pan y bu i mi gyfarfod â'r Dr Albert Chalinzee, y Swyddog Meddygol sy'n gyfrifol, sylwais ar unwaith ei fod yn berson o gryfder tawel. Gwasanaetha Ysbyty Mvumi ardal wledig enfawr gydag adnoddau prin iawn, ac eto mae yno hinsawdd o arbenigedd ac ymroddiad. Dywedodd Dr Chalinzee wrthyf fod graddfa heintiau ymhlith mamau'n byw gydag HIV yn agos at 50%, hyd yn ddiweddar. Trwy'r Rhaglen i Atal Trosglwyddiad Mamau-i-Blant, daeth y ffigwr hwnnw i lawr i 0.3%.

Siaradodd gyda balchder am y mamau sydd yn awr yn dod yn gynnar am gyngor dan arweiniad yr eglwys, ac yn gadael yr ysbyty yn dal babanod sy'n rhydd o HIV. "Mae wedi newid popeth", dywedodd, "yn awr rydym yn medru trin mamau a rhannu'n storïau am lwyddiant."

Mae llawer o'r offer yn hen, ac mae cryn bwysau ar y staff, ond beth sy'n cadw Mvumi i fynd yw nid peiriannau neu gyllid, ond ffydd. Gwasanaetha pob aelod o staff a welais yno allan o gariad tuag at eu cymuned. Wrth i mi adael, sylweddolais fod Mvumi yn fwy nag ysbyty; mae'n asgwrn cefn ac yn rhwyd ddiogel ar gyfer cymuned sydd eu hangen fwyaf.





## GWEDDÏO

### DYDD SUL, RHAGFYR 21 – PEDWERYDD SUL ADFENT

Darllenwch a myfyriwch ar Mathew 1:18-25

### DYDD LLUN, RHAGFYR 22 – GŴYL SANT THOMAS

Dduw cariadus, rhown ddiolch i ti am Dr Chalinzee a'i wasanaeth ffyddlon yn Ysbyty Mvumi. Nertha ef â doethineb, amynedd a thosturi wrth iddo ofalu am famau a phlant.

### DYDD MAWRTH, RHAGFYR 23



Arglwydd grasol, rhown ddiolch am lwyddiant y Rhaglen i Atal Trosglwyddiad Mamau-i-Blant. Nertha'r sawl sy'n gofalu, cysura'r rhai sy'n dioddef, a gad i obaith, iachâd a bywyd ffynnu yno.

### DYDD MERCHER, RHAGFYR 24 – NOSWYL NADOLIG

Wrth i ni ddisgwyl am eni Iesu, cofiwn y mamau sy'n disgwyl yn Ysbyty Mvumi. Gweddïwn am i ti eu gwarchod nhw, rhoi iddynt nerth a gofal, a'u hamgylchynu â gobaith a chariad wrth iddynt ddisgwyl am rodd bywyd newydd.

### DYDD IAU, RHAGFYR 25 – DYDD NADOLIG

Arglwydd Iesu, a anwyd i'n plith, llanw'n calonnau â llawenydd a gobaith. Boed i'th gariad lewyrchu'n ddisglair yn y byd, gan ddwyn tangnefedd i bob teulu, a nerth i'r blinedig.

### DYDD GWENER, RHAGFYR 26 – GŴYL SANT STEFFAN

Dduw grasol, rhown ddiolch am y mamau a'r babanod yn Ysbyty Mvumi sy'n rhydd o HIV. Dathlwn y rhodd hon o fywyd ac iechyd, a gweddïwn y byddi di'n dal i fod yn bresennol trwy dy Ysbryd.

### DYDD SADWRN, RHAGFYR 27 – GŴYL SANT IOAN

Arglwydd, bendithia brosiectau iechyd Eglwys Anglicanaidd Tanzania. Rho iddynt ddoethineb, cryfha eu partneriaethau, a chynorthwya'r gwaith o ddwyn iechyd a gobaith i lawer.

DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# RHAGFYR 28 – IONAWR 3

## MAM A PHLENTYN

**Imran Englefield – Rheolwr Rhoddi Unigol**

Wrth i ni ddathlu dyfodiad Iesu, meddyliaf am y mamau y bu i mi eu cyfarfod yn Tanzania a'r gobaith a welais yn eu llygaid. Neb yn fwy nag Alice, mam ifanc a welais yn Ysbyty Mvumi.

Mae Alice a'i gŵr yn byw gydag HIV. Wedi colli plentyn ac wedi cam esgor nifer o weithiau, ofnai na fyddai'n dal baban iach yn eu breichiau byth eto. Trwy'r Rhaglen i Atal Trosglwyddiad Mamau-i-Blant, derbyniodd driniaeth, cwnsela a gofal trwy gydol cyfnod ei beichiogrwydd.

Pan welais hi, roedd yn eistedd yn dawel ar ei gwely yn yr ysbyty, gan ddal ei mab blwydd oed yn ei breichiau. Roeddent wedi dod i mewn am archwiliad rheolaidd. Dan gryn deimlad, dywedodd, "Feddyliais i erioed y byddwn yn gweld fy mab mor gryf ac iach. Rhoddodd yr ysbyty obaith i ni a rheswm dros gadw i fynd."



Yn yr ystafelloedd aros, roedd mamau eraill, yn cynnwys nifer oedd yn disgwyl, yn aros am archwiliadau, yn sgwrsio'n dawel a chysuro'i gilydd. Roedd yn braf ei weld. Rwy'n cofio meddwl i mi fy hun mai dyma sut ddylai partneriaeth fod: eglwys ac ysbyty yn gweithio law yn llaw, yn creu cymuned, a lle i famau ddod â babanod iach i'r byd.

Mae'n atgof grymus fod stori'r bywyd newydd a ddathlwn ar y Nadolig yn dal i gael ei byw bob dydd yn Ysbyty Mvumi.




## DYDD SUL, RHAGFYR 28 – GWLEDD Y DINIWEIDIAID SANCTAIDD

Darllenwch a myfyriwch ar Mathew 2:13-23

## DYDD LLUN, RHAGFYR 29

Dduw tosturi, parhawn i ofyn am i ti fendithio ffydd ac ymroddiad y rhai sy’n gweithio yn Mvumi.

## DYDD MAWRTH, RHAGFYR 30

Arglwydd, gweddïwn am i ti fod gyda’r meddygon newydd, nertha’u sgiliau, a llanw eu calonnau â dewrder, doethineb a chariad at bob claf yn eu gofal.

## DYDD MERCHER, RHAGFYR 31

Dduw grasol, diolchwn am waith USPG dros y flwyddyn ddiwethaf. Am bob bywyd a gyffyrddwyd, pob teulu a gefnogwyd, pob cymuned a gryfhawyd, rhown ddiolch; a gweddïwn am i’th gariad ddal i lewyrchu ar draws y byd.

## DYD IAU, IONAWR 1 – DYDD CALAN / ENWI AC ENWAEDIAD IESU

Dduw grasol, ar gychwyn y flwyddyn newydd hon, fe’i rhown yn dy ddwylo di. Cyfarwydda’n traed, bendithia’n gwaith, a llanw bob dydd â gobaith ac addewid am fywyd newydd.

## DYDD GWENER, IONAWR 2

Dduw trugarog, gweddïwn dros rai sy’n dygymod â cholled, salwch neu ofn. Amgylcha nhw â’th gysur, a helpa nhw i edrych tua’r dyfodol gyda gobaith, gan ymddiried yn dy ofal.



## DYDD SADWRN, IONAWR 3

Dduw cariadus, rhown ddiolch am y partneriaethau sy’n gwneud gofal yn bosibl yn Ysbyty Mvumi. Bendithia’r staff, a gweinidogaeth ehangach Eglwys Anglicanaidd Tanzania.

DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# IONAWR 4-10
## HANESION CUDD

**Matthew Anns – Uwch Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu USPG**

“Ni allwn anwybyddu pwysigrwydd agweddau ysbrydol ar gyfiawnder atgyweiriol.”

Cafodd talu iawndaliadau i dalu’n ôl am effeithiau hir-dymor y fasnach gaethweision gefnogaeth brif-ffrwd gynyddol yn y blynyddoedd diwethaf. Ond mae trafodaethau yn aml yn methu cydnabod fod ysbrydolrwydd wrth wraidd iachâd a chymod dynol, sef, prif ddaliadau cyfiawnder atgyweiriol.

Yn ôl Daniel Eshun, o Brifysgol Roehampton, ni ellir siarad am faddeuant na chymod, na hyd yn oed ymddiheuro, heb ddeall sylfeini ysbrydol y cysyniadau hyn, a galluogi pobl i  dyfu ar ôl profi trawma.

Pan lansiwyd Renewal and Reconciliation: The Codrington Project yn 2024, arweiniodd Daniel litwrgi aml-ffydd i gydnabod bod pobl yn addoli Duw mewn ffyrdd gwahanol a bod urddas Duw yn cael ei adlewyrchu ym mhawb. Y mae litwrgi aml-ffydd yn bwysig mewn cyfiawnder atgyweiriol gan ei fod yn gwrando ar leisiau gwahanol, yn helpu adfer cydberthynas, ac yn ein hatgoffa fod parchu pob person yn rhan o gymod gwirioneddol.

Nod y prosiect 10-15 mlynedd rhwng USPG ac Ymddiriedolaeth Codrington yw gweithredu cyfiawnder atgyweiriol mewn ymateb i gysylltiadau cywilyddus USPG trwy ei berchnogaeth o Ystadau Codrington – un o’r planhigfeydd siwgr mwyaf yn Barbados – oedd yn cynnwys dros 300 o caethweision contractiedig.

Ers lansio’r prosiect, trosglwyddwyd nifer o ddarnau o dir, ac y mae nifer o’r tenantiaid yn byw bellach ar dir Coleg Codrington. Yno mae ysgolion gwaith maes archeolegol wedi darganfod nifer o gladdfeydd, ac mae archifau digidol wedi rhoi dogfennau hanesyddol pwysig yn nwylo’r gymuned leol, gan hyrwyddo’r broses o gymod ac iachâd.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, IONAWR 4

Darllenwch Colosiaid 3:13 a myfyriwch ar bwysigrwydd maddeuant.

## DYDD LLUN, IONAWR 5

Arglwydd, diolchwn i ti am yr ymrwymiad cynyddol ar draws y byd i gyfiawnder atgyweiriol ac am bawb sydd wedi ymrwymo i iachau clwyfau'r gorffennol.

## DYDD MAWRTH, IONAWR 6 – YR YSTWYLL

Dduw grasol, clodforwn di dy fod, trwy dy Fab, yn cynnig ffordd iachâd a chymod.



## DYDD MERCHER, IONAWR 7

Dad, rho i ni ymrwymiad i roi, gweithredu a gweddïo, mewn ymateb i gyfiawnder atgyweiriol. Arwain ni i geisio dy Deyrnas, lle caiff yr holl bobloedd le cyfartal a llais wrth dy fwrdd.

## DYDD IAU, IONAWR 8

Arglwydd, diolch i ti am y bartneriaeth rhwng USPG ac Ymddiriedolaeth Cordington. Boed i'r bartneriaeth ddwyn ffrwyth mewn iachâd a chymod i'r sawl yn Barbados, yn y DU a thu hwnt, a effeithir gan anghyfiawnder hanesyddol.

## DYDD GWENER, IONAWR 9

Arglwydd, diolch i ti am yr hyn a gyflawnwyd drwy Brosiect Cordington – am y tir a adferwyd, y darganfyddiadau archifol, ac am fod tenantiaid wedi cael cartrefi. Trwy'r gwaith unigryw hwn, boed i'th Ysbryd arwain bobloedd i iachâd ac undod a gobaith dyfnach.

## DYDD SADWRN, IONAWR 10

Dduw'r cenhedloedd, tywys ni i fyw fel pobl y gwirionedd a'r cymod. Wrth i ni wynebu'r gorffennol, saernïa ni trwy dy gyfiawnder, nertha ni trwy dy gariad ac una ni mewn gobaith am dy deyrnas.

DIWEDDARIAD
RHAGLEN WAITH

# IONAWR 11-17
# YMATEB I ARGYFWNG GAZA

Fe gyrhaeddodd Walid – gŵr ifanc o Tubas, pentref bach ger Nablus – Ysbyty Sant Luc yn amlwg yn dioddef. Roedd ganddo boen difrifol yn ei abdomen ac roedd ei anadlu'n llafurus. Datgelodd arolwg clinigol arwyddion o gyflwr brys a difrifol.

Ond nid mater meddygol yn unig oedd cyflwr Walid. O ganlyniad i'r rhyfel diweddar yn Gaza, roedd wedi colli ei swydd. Daeth nid yn unig i geisio cymorth meddygol ond hefyd mewn gobaith am drugaredd – yn pledio am iddo gael ei esgusodi rhag talu am driniaeth lawfeddygol fyddai'n arbed ei fywyd ond na allai Walid ei fforddio. Tosturiodd gweinyddiaeth yr Ysbyty wrtho, a chafodd y driniaeth yn rhad ac am ddim.

Diolch i ymyrraeth feddygol amserol gan y tîm llawfeddygol ymroddgar, cafodd Walid adferiad llwyr. Yng ngeiriau un o'r meddygon, "Mae angen i gleifion wybod y bydd yr Ysbyty Cristnogol hwn yn eu cefnogi'n ddiwahaniaeth. Dyma'n cenhadaeth Gristnogol. Ni fyddwn byth yn danfon unrhyw glaf i ffwrdd."




Mae'r stori hon, fel nifer fawr a ddaw i sylw USPG trwy ein partneriaid yn Esgobaeth Jerusalem, yn arwydd o rym gweithredoedd dyngarol syml.

Mae USPG yn rhan o gynghrair Anglicanaidd sy'n cefnogi ysbytai fel Al Ahli yn Gaza a Sant Luc yn y Llain Orllewinol. **Gwahoddwn chi i ymuno â ni yn solidariaeth gweddi neu i ystyried gwneud rhodd ar uspg.org.uk.**



# GWEDDÏO

## SUL, IONAWR 11 – SUL CYNTAF WEDI'R YSTWYLL / BEDYDD EIN HARGLWYDD

Darllenwch a myfyriwch ar Mathew 3:13-17

## DYDD LLUN, IONAWR 12

*Cymerwch foment i gynnu cannwyll*
Dduw trugarog, wylwn dros y dioddefaint, y colledion a'r caledi yn Israel, Gaza a'r Llain Orllewinol. Galarwn oherwydd y trais a'r ansicrwydd sy'n pwyso'n drwm ar gymunedau. Ymbiliwn arnat, bydd yn agos at bawb.

## DYDD MAWRTH, IONAWR 13

Dduw grasol, dyro i Esgobaeth Jerusalem wroldeb ac adnoddau, er mwyn i'w gwasanaeth Cristnogol ddwyn iechyd, cefnogaeth a gobaith all achub bywyd, i'r rhai sydd fwyaf mewn angen.

## DYDD MERCHER, IONAWR 14

Dad nefol, diolch i ti am arwyddion gobaith megis adferiad Walid. Boed i'th Ysbryd ddal i alluogi gweithredoedd o dosturi a gwroldeb, a magu sgiliau, hyd yn oed yn wyneb angen enbyd.

## DYDD IAU, IONAWR 15

Arglwydd, diolch i ti am yr Eglwys ac am Gristnogion yn Israel, Gaza a'r Llain Orllewinol. Nertha nhw a dwg nhw'n agosach atat ti mewn gweddi, sicrha nhw y gallant ddibynnu arnat, a bod yn ddedwydd yng ngobaith dy Air.

## DYDD GWENER, IONAWR 16

Dad nefol, diolch i ti am y bartneriaeth ryngwladol trwy'r Cynghrair Anglicanaidd. Dyro ddoethineb, adnoddau a dyfalbarhad, fel y gallwn gwrdd ag anghenion brys gyda'n gilydd, a dangos dy drugaredd ar waith.

## DYDD SADWRN, IONAWR 17

Dduw grasol, llawenhawn yn y cytundeb cadoediad* a rhown ddiolch i ti amdano. Rho ddewrder a thosturi i'r holl bartïon i lynu wrth y cytundeb a gweithio dros heddwch parhaol yn y rhanbarth. Gweddïwn am dangnefedd – am shalom, diogelwch a gwydnwch – yn y Dwyrain Canol. Boed i obaith barhau i gynyddu lle mae dioddefaint yn ddwfn.

* Hydref 2025

MYFYRDOD

# IONAWR 18-24

# DIWINYDDIAETHAU RHYDDID

**Dr Thandi Gamedze – Bardd, diwinydd ac ymchwilydd hŷn yng Nghanolfan Crefydd a Chyfiawnder Cymdeithasol Desmond Tutu**

Pan oeddwn yn tyfu i fyny yn Ne Affrica, roedd yr Eglwys o'm hamgylch ymhob man, ond nid oeddwn yn gwybod holl stori ei lle yn ein hanes. Am ddegawdau, cafodd lleisiau pobl ddu De Affrica oedd yn gwrthsefyll apartheid eu tawelu'n aml neu eu hanghofio, hyd yn oed oddi fewn i gymunedau ffydd. Un o'r enghreifftiau mwyaf pwerus o leisiau pobl ddu yw'r Ddogfen Kairos, a ysgrifennwyd yn 1985 yn ystod un o'r Cyfnodau Argyfwng. Fe wynebodd y ddogfen hon, yn feiddgar, ran yr Eglwys mewn apartheid, gan alw ar i bobl ffydd wneud safiad dros gyfiawnder. Roedd ei darllen, i mi, fel darganfod curiad calon cudd o wroldeb a gobaith.

Fe'm hysbrydolwyd gan y storïau hyn i greu Diwinyddiaethau Rhyddid: De Affrica, gêm gardiau sy'n dod â'r storïau hyn yn fyw. Mae'r chwaraewyr yn archwilio digwyddiadau megis Yr Orymdaith Heddwch yn 1989 neu prydau Agape y Sefydliad Cristnogol (Christian Institute), gan rannu storïau, a'u mapio nhw ar linellau amser i weld sut y datblygodd y mudiad.

Tyfodd y gêm allan o syniad syml: gallwn rannu â'n gilydd wrth ddysgu a gall fod yn hwyl, ond gall fod yn wir ystyrlon, ar yr un pryd. Mae'r storïau hyn o ddiwinydda a gweithredu proffwydol bob-dydd yn wirioneddol bwysig, gan fod gan bawb ohonom rôl wahanol i'w chwarae yn y gwaith hwn o 'fyd-adeiladu', p'un ai ydy hyn yn digwydd drwy gelfyddyd, neu ar orymdaith, neu drwy rywbeth mor syml â phryd bwyd wythnosol. Dyna wnaeth Cyfarwyddwr Rhanbarth y Cape o'r Sefydliad Cristnogol. Roedd y prydau a drefnodd yn fwy na bwyd. Roeddent yn ofod bywiog lle gallai pobl gysylltu, gweddïo a chynllunio gyda'i gilydd, gan danio'r frwydr yn erbyn apartheid drwy gyd-weithredu a rhannu'r un ysbryd. Gallem wneud y tro â mwy o hyn.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, IONAWR 18 – AIL SUL WEDI'R YSTWYLL

Darllenwch a myfyriwch ar Ioan 1:29-42

## DYDD LLUN, IONAWR 19

Arglwydd, diolch i ti am y storïau am ddewrder yn hanes De Affrica ac am y Ddogfen Kairos a alwodd yr Eglwys i gyfiawnder. Helpa ni i ddysgu drwy'r dystiolaeth hon ac i weithredu'n feiddgar trwy'n cymuned ffydd ni.

## DYDD MAWRTH, IONAWR 20

Dduw gwirionedd, gweddïwn dros Eglwys Anglicanaidd De Affrica. Nertha ei harweinwyr a'u chymunedau wrth iddynt dy wasanaethu di a gweithredu fel tystion beiddgar i'th gariad.

## DYDD MERCHER, IONAWR 21

Dad, rhown ddiolch am Dr Thandi Gamedze a'r ffyrdd creadigol y bu i'w hymchwil ddwyn storïau na adroddwyd cynt yn fyw. Bendithia hi, yw'n gweddi.

## DYDD IAU, IONAWR 22

Arglwydd, cofiwn y gweithredoedd bychan sy'n gwneud gwahaniaeth – rhannu prydau bwyd, celfyddyd, sgwrsio a chyfarfodydd cymunedol. Boed i ni adnabod a defnyddio dy roddion i bob un ohonom, er mwyn i ni fedru dy wasanaethu a bod yn fendith i eraill.

## DYDD GWENER, IONAWR 23

Arglwydd, diolchwn i ti am Gymdeithas Ysgolheigion Diwinyddol Anglicanaidd USPG (FeAST) a'i waith yn hyrwyddo cydgyfarfod a meddwl sy'n newydd a ffres. Bendithia'r rhwydwaith hon â chreadigrwydd, mewn-welediad a gwroldeb, er mwyn medru adeiladu ysgolheictod sy'n gwasanaethu'r Eglwys a'r byd.

## DYDD SADWRN, IONAWR 24 – DYDD RHYNGWLADOL ADDYSG

Dduw grasol, diolch i ti am rym addysg. Gweddïwn yn arbennig dros y rhai sy'n wynebu rhwystrau rhag derbyn addysg – agor ddrysau, symuda'r rhwystrau, a rho i bob plentyn a pherson ifanc y cyfle i dyfu, i ffynnu ac i gyfrannu at fyd mwy cyfiawn.



DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# IONAWR 25-31
## CYSYLLTIADAU SY'N PARHAU

**Paula de Mello Alves – Cyfreithwraig a diwinydd o Brasil a chyn gyd-arweinydd Rhwydwaith Ieuenctid y Cymundeb Anglicanaidd (RICA).**

Rwy'n cofio ymuno â RICA gyntaf, flynyddoedd yn ôl, heb wybod yn iawn beth i'w ddisgwyl oddi wrth rwydwaith fyd-eang. Dros amser, cynyddodd fy ymwneud, ac yn awr rwy'n dod at derfyn fy nhymor fel Cyd-Gynullydd Byd-eang a Chyd-Gadeirydd Rhanbarth yr Americas.

Deuthum i sylweddoli fod y llwyfan hwn yn cysylltu llawer mwy na'r bobl sydd ynglŷn â gweinidogaeth ieuenctid. Y mae'n ofod diogel lle gallwn rannu ein profiadau fel Anglicaniaid ifanc, dysgu wrth ein gilydd, a chryfhau ein cyfraniad at weinidogaeth.

Gweithia RICA gyda grwpiau Anglicanaidd eraill, gan ein galluogi i ymuno â dirprwyaethau eraill i fynychu COP a Chomisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Statws Merched. Trwy hyn, gwelais mor agos at ei gilydd y mae pynciau fel gofal am y cread a chyfiawnder rhywiol, yn arbennig gan fod yr heriau hyn yn aml yn effeithio merched fwyaf.

Cymerwyd camau sylweddol ymlaen, ond yr hyn a drysoraf fwyaf yw'r cysylltiadau ystyrlon rydym wedi eu hadeiladu. Rwyf wedi cyfarfod â ffrindiau rhyfeddol sy'n rhannu'r un ffydd ac yn gwasanaethu'r Eglwys mewn cynifer o rannau o'r byd. I mi, dyna yw gwir brydferthwch RICA – rhwydwaith sy'n cysylltu'r Cymundeb Anglicanaidd ar draws saith rhanbarth ac sy'n ein hatgoffa ein bod, er mor bell oddi wrth ein gilydd ydym, yn rhan o'r un teulu, yn cydweithio mwn ffydd, gobaith a chariad.

Y mae Rhwydwaith Ieuenctid y Cymundeb Anglicanaidd (RICA) yn llwyfan sy'n gweithio er mwyn hyrwyddo a chefnogi gweinidogaeth ieuenctid a gweithwyr ieuenctid oddi fewn i'r Cymundeb Anglicanaidd. **Cewch fwy o wybodaeth am ein partneriaeth ar uspg.org.uk.**



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, IONAWR 25 – TRYDYDD SUL WEDI'R YSTWYLL / TRÖEDIGAETH PAUL

Darllenwch a myfyriwch ar Mathew 4:12-23

## DYDD LLUN, IONAWR 26

Arglwydd, rhown ddiolch am Paula a'r ffyrdd y bu i'w harweinyddiaeth gymell cysylltiadau rhwng ieuenctid a'r Cymundeb Anglicanaidd ehangach. Cyfarwydda'i thraed a llanw ei llwybrau ag ymddiriedaeth ynot ti.

## DYDD MAWRTH, IONAWR 27

Gweddïwn dros Rwydwaith Ieuenctid y Cymundeb Anglicanaidd, am iddo barhau i feithrin arweinwyr ifanc a hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth ar draws diwylliannau a chymunedau.

## DYDD MERCHER, IONAWR 28

Dad, diolch i ti am y gofod y mae RICA yn ei gynnig i Anglicaniaid ifanc, lle gallant deimlo eu bod yn weladwy, yn cael cefnogaeth, ac yn cael eu hysbrydoli i dyfu mewn ffydd.

## DYDD IAU, IONAWR 29

Arglwydd, diolchwn i ti am ieuenctid. Helpa ni i ddathlu pobl o bob oed yn ein heglwysi, i ddysgu wrth ein gilydd ac i dyfu mewn ffydd gyda'n gilydd.

## DYDD GWENER, IONAWR 30

Arglwydd, dathlwn y cysylltiadau a adeiladwyd drwy RICA. Boed i'r cyd-berthyn hwn fod yn anogaeth ac yn nerth ym mhob rhan o'r Cymundeb Anglicanaidd, ymhell ac yn agos.

## DYDD SADWRN, IONAWR 31

Arglwydd, bendithia'r Academi i Arweinwyr-sy'n-dod-i'r-Amlwg, a'r bartneriaeth rhyngddo ag USPG a RICA. Boed i'r arweinwyr ifanc hyn dyfu mewn ffydd a doethineb drwy'r Academi, wrth iddynt chwilio am ffyrdd newydd i wasanaethu a bod yn ufudd i'w galwad.



DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# CHWEFROR 1-7

## GWASANAETHU'R ARGLWYDD GYDAG URDDAS

**Y Parchg Mauricio Mugunhe – Cyfarwyddwr Gweithredol Acção Social Anglicana, Igreja Anglicana de Moçambique e Angola**

Mae'n bywyd Cristnogol fel mordaith ar fôr tymhestlog. Ym Marc 4:35-41, mae Iesu'n gwahodd ei ddisgyblion i groesi i lan arall y môr. Daw storm rymus ar eu traws ac mae'r disgyblion, yn eu dychryn, yn dihuno Iesu: "Athro, a wyt ti'n hidio dim ei bod ar ben arnom?" Tawela Iesu'r storm: "Bydd ddistaw! Bydd dawel!" a gofyn i'w ddisgyblion: "Pam y mae arnoch ofn? Sut yr ydych heb ffydd o hyd?" Mae'r stori hon yn llefaru'n bwerus wrth y sefyllfa a wynebwn heddiw yn yr Igreja Anglicana de Moçambique e Angola (IAMA), yn arbennig yn Esgobaeth Lebombo. Fel esgobaethau, rydym yn hwylio trwy stormydd: heriau ariannol, prinder addysg ddiwinyddol o safon dda, anhawster gydag chodi adeiladau eglwysig a chynnal ein gweinidogaeth. Ac eto, deil gwahoddiad Iesu: "Awn drosodd i'r ochr draw."

I ni, "yr ochr draw" yw gweledigaeth IAMA, y dalaith fwyaf newydd yn y Cymundeb Anglicanaidd, i fod yn eglwys gynaliadwy, gyda chlerigion sydd wedi eu hyfforddi'n dda, sy'n cael cefnogaeth ddigonol, ac sy'n medru arwain pobl Dduw gydag urddas a gobaith.

Un cam pendant tuag at gyflawni'r weledigaeth hon yw lansio'r prosiect, "Gwasanaethu'r Arglwydd gydag Urddas". Y syniad yw gwneud gwisgoedd litwrgaidd (vestments) ac ati drwy grwpiau megis Undeb y Mamau ac Urdd Bernard Mizeki. Bydd hyn hefyd yn helpu tuag at sefydlogrwydd ariannol. Aelodau eglwysig sy'n arwain gyda chynhyrchu gwisgoedd litwrgaidd, ac mae'n nhw'n hyfforddi tîm ehangach o deilwriaid.

Wrth i ni groesi i'r ochr arall, gadewch i ni ymddiried yng ngallu Iesu i dawelu'r stormydd a'n harwain yn ddiogel i lle y mae'n ein galw ni.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, CHWEFROR 1 – PEDWERYDD SUL WEDI'R YSTWYLL

Darllenwch a myfyriwch ar Mathew 5:1-12

## DYDD LLUN, CHWEFROR 2 – CYFLWYNO CRIST YN Y DEML

Arglwydd, fel y cymerodd Simeon y plentyn Iesu yn ei freichiau, dyhëwn ninnau am weld dy addewid yn cael ei gyflawni yn ein bywyd. Helpa ni i ymddiried yn dy arweiniad a cherdded mewn ffydd bob dydd.

## DYDD MAWRTH, CHWEFROR 3

Arglwydd, gweddïwn am dyfiant ysbrydol ac undod IAMA. Boed i Grist ddal i fod yng nghanol bywyd a chenhadaeth y Dalaith.

## DYDD MERCHER, CHWEFROR 4

Dad nefol, rhown ddiolch am brosiect "Gwasanaethu'r Arglwydd gydag Urddas". Boed i'r gwisgoedd a gynhyrchir ganddynt ogoneddu dy enw a chalonogi pawb fydd yn eu gwisgo.

## DYDD IAU, CHWEFROR 5

Gweddïwn dros y Parchedicaf Vicente Msosa wrth iddo arwain esgobaeth fwyaf newydd y Cymundeb Anglicanaidd. Dyro iddo ddoethineb, dewrder a thosturi wrth iddo lywio cenhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys.

## DYDD GWENER, CHWEFROR 6

Arglwydd, dygwn ger dy fron bobl gogledd Mozambique, yn fwyaf arbennig trigolion Cabi Delgado, lle mae terfysgaeth eithafol yn dal i orfodi nifer o bobl i ffoi o'u cartrefi. Dwg i'r rhai sy'n byw mewn ofn, heddwch, diogelwch, a gobaith.



## DYDD SADWRN, CHWEFROR 7

Arglwydd, gwyddom, 'os nad wyt ti'n adeiladu'r tŷ, y mae ei adeiladwyr yn gweithio'n ofer' (Salm 127:1). Cyfarwydda IAMA yn unol â'th bwrpas, a chynnal ei weledigaeth gyda ffydd ddiysgog.

DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# CHWEFROR 8-14

## LLWYBRAU DIOGEL

**Bradon Muilenburg – Arweinydd Cefnogaeth Anglicanaidd i Ffoaduriaid**

Rwy’n ysgrifennu o Calais, lle treuliais bum mlynedd yn gweithio gyda ffoaduriaid. Bydd llawer yn gofyn i mi, “Beth ellir ei wneud am y cychod bychan?” O’r hyn a welais, yr unig ateb mewn gwirionedd yw creu llwybrau diogel ar draws y Sianel – ffyrdd i alluogi bobl i hawlio lloches heb orfod mentro’u bywyd. Y Sianel yw un o lonydd llongau prysuraf y byd, gyda dyfroedd rhewllyd a cherrynt peryglus. Mae’n anodd dod o hyd i siacedi achub, ac yn aml bydd yr awdurdodau yn eu cymryd i ffwrdd. Pan mae llwybrau cyfreithlon ar gael – megis aduno teulu neu goridorau dyngarol - gall pobl eu defnyddio, gan eu bod yn fwy diogel ac yn rhatach.

Enillwyd yr hawl am loches wedi ymdrech anodd yn dilyn yr ail Ryfel Byd. Rhaid i ni gofio’r hanes hwnnw, oherwydd os caiff ei anghofio, rydym mewn perygl o wneud yr un camgymeriadau eto.

Un o’r agweddau pwysicaf ar gyfiawnder yw cadw teuluoedd gyda’i gilydd. Peth poenus iawn yw gweld plant yn cael eu gwahanu oddi wrth eu teulu am flynyddoedd, hyd yn oed wedi iddynt ennill yr hawl am loches. Nid yw hyn yn iawn, ac fe ellir ei newid. Y mae gobaith ar y gorwel: y Bil Aduno Teuluoedd Ffoaduriaid, sydd gerbron Tŷ’r Arglwyddi ar hyn o bryd. Tra mai cam cyntaf yn unig yw hwn, mae’n gam hanfodol tuag at fyd mwy cyfiawn, y byd y mae Iesu yn ein galw i’w geisio.

Rwyf am gymell pawb i weithredu – nid yn unig trwy roddion, ond trwy sefyll gyda theuluoedd, ysgrifennu at Aelodau Seneddol, a siarad o blaid polisïau mwy diogel a dyngarol. Gyda’n gilydd gallwn sicrhau bod gobaith, cyfiawnder a thosturi yn llywio’r dewisiadau a wnawn. Bydd pob gweithred fach o eiriol dros geiswyr lloches yn ein dwyn yn agosach at fyd lle bydd teuluoedd yn ddiogel, ac yn cael eu haduno a’i gwerthfawrogi.

**Fel cam cyntaf, gwyliwch a rhannwch y fideo “Victims of the Border: A Memorial” ar YouTube@USPGglobal. Gwrandewch ar rai o storïau’r sawl a deithiodd yn obeithiol.**



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, CHWEFROR 8 – PUMED SUL WEDI'R YSTWYLL / SUL CENHADAETH FYD-EANG

Darllenwch a myfyriwch ar Mathew 5:13-20

## DYDD LLUN, CHWEFROR 9

Arglwydd, gweddïwn dros Bradon a'i deulu, a'r holl wirfoddolwyr sy'n gwasanaethu ffoaduriaid. Atgyfnertha eu calonnau a'u meddyliau â dewrder a thosturi, tywys pob gweithred gyda doethineb, ac amddiffyn nhw rhag niwed a blinder tra'u bod yn cynnig gofal i'r mwyaf bregus.

## DYDD MAWRTH, CHWEFROR 10

Gwarchod blant sy'n cael eu gwahanu wrth eu rhieni gan y Sianel. Disgleiria dy oleuni arnynt, yn enwedig y rhai sy'n aros am gael eu haduno.

## DYDD MERCHER, CHWEFROR 11

Arglwydd, gweddïwn am i'r Eglwys yn y DU fod yn llais cyson a gwrol dros ffoaduriaid. Ysbrydola ni i lefaru yn erbyn hilyddiaeth ac anghyfiawnder, i groesawu a diogelu'r rhai sy'n ceisio lloches, ac i weithredu'n dosturiol a diffuant tuag at bob person a ddadleolwyd sydd mewn angen.

## DYDD IAU, CHWEFROR 12

Dwg iachâd i deuluoedd anwyliaid a gollwyd yn Calais, Grande-Synthe a Dunkerque, ac yn y DU. Adfer obaith i'r rhai sy'n dioddef tristwch a thrawma.

## DYDD GWENER, CHWEFROR 13

Ysbrydola arweinwyr lleol, ac awdurdodau'r Undeb Ewropeaidd a'r DU i ddewis croeso yn hytrach na pholisïau niweidiol. Boed i benderfyniadau ddiogelu pawb sy'n methu gadael lle maent, ac sydd mewn perygl.




## DYDD SADWRN, CHWEFROR 14

Tywallt dy gariad ar rai sydd wedi eu gosod mewn llety arbennig i ffoaduriaid a mewnfudwyr. Gad iddynt deimlo fod yr Eglwys yn eu derbyn ac yn gofalu amdanynt, hyd yn oed ynghanol dioddefaint.



DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# CHWEFROR 15-21

## EDRYCHWCH TUA’R AMAZON!

**Y Parchedicaf Marinez Bassotto – Esgob Amazonia ac Archesgob yr Igreja Episcopal Anglicana do Brasil**

Mae gofalu am bobl a’r blaned yn ganolog i genhadaeth Eglwys Anglicanaidd Brasil. Fel Esgob Esgobaeth Anglicanaidd yr Amazon, deuthum i feddwl am fy hunan fel brodor o’r Amazon, er i mi gael fy ngeni yn neheudir Brasil. Mae’r tir hwn yn gyfoethog mewn diwylliant a phrydferthwch naturiol, ac eto mae’n wynebu heriau – o ddatgoedwigo a mwyngloddio i drais yn erbyn poblogaethau traddodiadol a meddiannu tiriogaethau cynhenid. Yn aml, byddaf yn pwyso ar bobl i edrych tua’r Amazon, i gydnabod yr angen brys am gyfiawnder ac i warchod bywyd a’r cread.

Mae gan yr Eglwys rôl hollbwysig yn yr ymateb i’r heriau hyn. Trwy ein hymestyn allan i’r gymuned mewn rhaglenni fel y Cwrs i Addysgwyr, rydym yn hyfforddi athrawon lleol i weithio ar brosiectau megis ail-agor y Ganolfan Ddiwylliant Amgen, sy’n cefnogi Mudiad Gwragedd Du mewn Crefftau [Movement of Black Women Artisans (MOCAMBO), a dysgu sgiliau arlunio i ieuenctid yn yr ardal trwy Tinta Preta (Inc Du/Black Ink). I baratoi ar gyfer COP30, bu’r esgobaeth hefyd yn cydweithio gyda’r llywodraeth, partneriaid ecwmenaidd, a mudiadau rhyng-ffydd i sicrhau fod lleisiau cynhenid yn cael eu clywed a chytundebau amgylcheddol yn cael eu hanrhydeddu.

Y mae cefnogaeth USPG yn hollbwysig yn y gwaith hwn. Rydym yn dibynnu ar weddïau, codi lleisiau a chefnogaeth ymarferol i gryfhau gweithgarwch yr esgobaeth ac ehangu’n hymwneud â’r gymuned. Trwy ein Rhwydwaith Cyfiawnder Amgylcheddol, mae Eglwys Anglicanaidd Brasil yn cynnig cyfarwyddyd, hyfforddiant ac adnoddau i ddiogelu cread Duw, ond ni fydd y gwaith hwn yn llwyddo oni bai fod yr Eglwys a’i phartneriaid yn gweithredu gyda’i gilydd gyda’r un amcan.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, CHWEFROR 15 – SUL OLAF WEDI'R YSTWYLL / DYDD SYLFAENYDD USPG

Darllenwch a myfyriwch ar Mathew 17:1-9

## DYDD LLUN, CHWEFROR 16

Dduw cariad, gweddïwn dros Archesgob Marinez, gan ofyn am arweiniad, doethineb a nerth iddi. Boed iddi arwain gyda dewrder a thosturi, i warchod dy gread, ac ysbrydoli cymunedau i weithredu gyda chyfiawnder a chariad.

## DYDD MAWRTH. CHWEFROR 17

Arglwydd, bendithia yr Igreja Episcopal Anglicana do Brasil wrth iddi sefyll ochr yn ochr â chymunedau cynhenid yr Amazon i ddiogelu fforestydd a gwarchod hawliau'r tir a diwylliant.

## DYDD MERCHER, CHWEFROR 18 – DYDD MERCHER LLUDW

Dduw trugarog, ar gychwyn tymor y Grawys, atgoffa ni i geisio'th bresenoldeb gyda chalonnau gostyngedig. Dysg ni i roi, i weddïo ac i ymprydio, yn ôl ein gallu, o gariad atat ti. Boed i ni gerdded bob dydd yng ngoleuni dy ras.

## DYDD IAU, CHWEFROR 19

Dduw'r Crëwr, gwarchod yr Amazon, ei afonydd, ei fforestydd, a'r cymunedau sy'n ei alw'n gartref. Rho i ni nerth i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwarchod dy ddaear.

## DYDD GWENER, CHWEFROR 20 – DYDD CYFIAWNDER CYMDEITHASOL BYD-EANG

Dduw grasol, ysbrydola yn y ddynolryw degwch a chydraddoldeb. Boed i weithgareddau megis Mudiad Gwragedd Du mewn Crefftau, ddwyn urddas, cyfleoedd a gobaith i ferched a theuluoedd ar draws Brasil.

## DYDD SADWRN, CHWEFROR 21 – DYDD RHYNGWLADOL MAMIAITH

Dduw'r holl bobloedd, bendithia pob ymdrech i ddiogelu ieithoedd a diwylliannau. Boed i gymunedau ddathlu a throsglwyddo'u hetifeddiaeth i'r cenedlaethau sy'n dod, er mwyn cryfhau hunaniaeth a meithrin balchder yn eu treftadaeth.



# GWEDDÏO GYDA'R EGLWYS FYDEANG



# 30 TACHWEDD 2025 – 30 MAI 2026

## CIPOLWG AR Y RHANBARTHAU RYDYM YN GWEDDÏO DROSTYNT YN Y RHIFYN HWN



# CHWEFROR 22-28

## MYFYRDOD

## ‘WELE, YR WYF YN GWNEUD POB PETH YN NEWYDD!’

**Y Gwir Barchedig Jorge Pina Cabral Jorge – Esgob yn Esgobaeth Eglwys Lusitania (Portiwgal)**

Gweledigaeth Sant Ioan, “Wele, yr wyf yn gwneud pob peth yn newydd!” (Dat. 21:5), fydd arwyddair a her yr ymdrech i ysgogi adnewyddiad a thyfiant cynaliadwy a datblygu tystiolaeth Anglicanaidd a Christnogol mwy effeithiol yn y Penrhyn Iberiaidd. Ein dymuniad yw cydweithio yn fwy agored gyda thaleithiau Anglicanaidd eraill Ewrop.

Y mae dwy eglwys genedlaethol Iberia, Yr Eglwys Esgobaethol Ddiwygiedig Sbaenaidd ac Eglwys Lusitania – Portiwgal, yn cydweithio ar ymdrech i ffurfio Talaith Anglicanaidd newydd ar sail 150 mlynedd o hanes cyffredin. Y mae’r ddwy eglwys yn gwasanaethu cymunedau ar draws y prif ddinasoedd a rhanbarthau, trwy gefnogi ieuenctid a menywod, hyrwyddo gweithredu cymdeithasol, cyfathrebu, a hyfforddiant diwinyddol, yn ogystal ag adeiladu cydberthynas ecwmenaidd a rhyng-ffydd.

Mae’r Ysgrifenyddiaeth Ddiaconol ym Mhortiwgal yn canolbwyntio ar ymyrraeth cymdeithasol, yn fwyaf arbennig gyda mewnfudwyr. Gyda ffocws ar waith cymdeithasol, mae’r AETP yn Gaia a Chanolfan Gymdeithasol y Teulu Sanctaidd yn Queluz, hefyd yn cynnig gwasanaethau i blant a’r henoed, ac i bobl sydd mewn sefyllfa economaidd fregus, gan baratoi prydau bwyd, golchi dillad, a sicrhau cymorth cartref ac ati.

Ymhlith y sefydliadau a’r gweinidogaethau pwysicaf, y mae Neuadd Breswyl Prifysgol Atilano Coco yn Salamanca, Y Tŷ Pererindod Anglicanaidd yn Santiago de Compastelo, y siop lyfrau sydd gan yr Eglwys ym Malaga (Proyecto Logos) a gweinidogaeth bwysig Radio Anglicana gyda dros filiwn o wrandawyr cofrestredig.

Ein gweledigaeth yw cyflawni undeb rhyngom erbyn 2030, y flwyddyn pan fydd y ddwy eglwys Iberiaidd hyn yn dathlu 150 mlynedd ers cynnal y ddwy synod pan eu sefydlwyd.

GWEDDÏO

## DYDD SUL, CHWEFROR 22 – SUL CYNTAF Y GRAWYS

Darllenwch a myfyriwch ar Mathew 4:1-11.

## DYDD LLUN, CHWEFROR 23

Dduw'r croeso, bendithia weinidogaeth yr Eglwysi Anglicanaidd ym Mhortiwgal a Sbaen gyda mudwyr. Boed i'r holl ddieithriaid hyn gael eu derbyn gydag urddas, lletygarwch a gobaith.

## DYDD MAWRTH, CHWEFROR 24 – PEN-BLWYDD YR YMOSODIAD AR WCRAIN

Dduw'r heddwch, cofiwn am Wcrain heddiw. Dyro gysur i'r hiraethus, nerth i'r blinedig, a doethineb i'r rhai sy'n ceisio rhoi terfyn ar y rhyfel. Boed i gyfiawnder a chymod fwrw gwreiddiau lle mae trais wedi rhwygo bywydau.

## DYDD MERCHER, CHWEFROR 25

Dduw doethineb, cyfarwydda'r cydweithio mewn hyfforddiant diwinyddol ac addysg Gristnogol ar draws Portiwgal a Sbaen. Galw arweinwyr ffyddlon fydd yn gwasanaethu gyda diffuantrwydd a gwroldeb, ac yn glynu at y gwirionedd.

## DYDD IAU, CHWEFROR 26

Dduw hael, bendithia'r rhannu adnoddau a doniau rhwng yr Eglwys Lusitanaidd a'r Eglwys Sbaenaidd Ddiwygiedig. Trwy eu partneriaeth ag USPG, boed i haelioni ddod â nerth a llawenydd i bawb.

## DYDD GWENER, CHWEFROR 27

Dduw undeb, dyfnha'r rhwymau ecwmenaidd ar draws Iberia. Boed i'r dystiolaeth Anglicanaidd ddisgleirio gan barch at eraill ac ysbryd o gydweithio gyda'n brodyr a'n chwiorydd yn yr Eglwys Gatholig Rufeinig.

## DYDD SADWRN, CHWEFROR 28

Dduw'r Crëwr, gwarchod fforestydd Portiwgal a Sbaen rhag tanau gwyllt. Boed i'r Eglwysi gael eu hysbrydoli i ymrwymo'n ddyfnach i ofalu am dy gread.

**Gwersyll haf ecwmenaidd i ieuenctid o'r Eglwysi yn Sbaen a Phortiwgal, Medi 2025, yn Figueira da Foz, Portiwgal**



# MAWRTH 1-7
# DYDD GŴYL DEWI

MYFYRDOD

**Y Parchg Sarah Rosser – Ficer Tîm yn Ardal Weinidogaethol Gwent Isaf (Netherwent), Esgobaeth Mynwy, Yr Eglwys yng Nghymru**

Pob blwyddyn ar Fawrth 1af bydd Cymru'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi, gyda digonedd o bice ar y maen neu gacennau cri, cennin Pedr, cennin, a gwisgoedd Cymreig traddodiadol. Dewi Sant yw nawddsant Cymru, oedd yn esgob a fu'n byw yng Nghymru yn y 6ed ganrif OC.

Dywedir iddo ar ei wely angau ar Fawrth 1af, 587OC, rannu'r geiriau hyn gyda'i fynachod a'i ddilynwyr: "Arglwyddi, frodyr a chwiorydd: byddwch lawen, a chadwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf i."

Y mae'r geiriau hyn yn atsain o eiriau Iesu ym Mathew 5:13-16, sy'n ein cymell i adael i'n goleuni "lewyrchu gerbron eraill" a chyflawni "gweithredoedd da", er mwyn inni arddangos ein ffydd a dwyn gogoniant i Dduw. I ni Gristnogion, y mae pob moment yn gyfle i wasanaethu Duw a dangos ei gariad yn y byd. P'un ai yw'n "pethau bychain" ni yn digwydd yn ein gweithleoedd, ein cartrefi neu yn y siop leol – y mae Duw'n bresennol yn ein bywyd bob amser.

Gwnawn "y pethau bychain" a'r "gweithredoedd da", nid am fod hyn yn sicrhau i ni le gwell yn y nefoedd, ond am ein bod yn adnabod cariad Duw tuag atom ac, yn sicrwydd y wybodaeth honno, yn gwybod hefyd fod cariad Duw'n gorlifo ohonom tuag at eraill.





# GWEDDÏO

## DYDD SUL, MAWRTH 1 – AIL SUL Y GRAWYS / DYDD GŴYL DEWI

Darllenwch Mathew 5:13-16 a myfyrdod y Parchg Sarah ar y geiriau hyn, ac ystyriwch eiriau Dewi Sant: “Arglwyddi, frodyr a chwiorydd: byddwch lawen, a chadwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf i.”

## DYDD LLUN, MAWRTH 2

Diolchwn i ti am Dewi Sant, am ei gariad at yr Efengyl a’i angerdd dros ei rhannu. Adnewydda genhadaeth dy Eglwys, dyro i ni ddoethineb a gwroldeb i rannu dy gariad, a helpa ni i “wneud y pethau bychain” sy’n dy ogoneddu di.

## DYDD MAWRTH, MAWRTH 3

Gweddïwn dros bobl Cymru, a thros yr Eglwys yng Nghymru. Boed i’r Eglwys wasanaethu cymunedau lleol gyda thosturi. Arglwydd, agor ein calonnau i’r anghenion o’n cwmpas a llanw ni â chariad at dy holl blant.

## DYDD MERCHER, MAWRTH 4

Gweddïwn dros y byd: am heddwch lle mae rhyfel, gobaith lle mae tlodi, iachâd lle mae salwch. Arwain arweinwyr gyda doethineb a chymoda raniadau yn ein cymunedau ni.

## DYDD IAU, MAWRTH 5

Gweddïwn dros yr afiach: dyro iddynt gysur a iachâd. Nertha’r rhai sy’n gofalu dros anwyliaid, a phawb sy’n gweithio mewn swyddi gofal dros eraill.

## DYDD GWENER, MAWRTH 6

Cofiwn am y rhai a ddangosodd dy gariad i ni ar air neu mewn gweithred. Diolchwn am y rhai fu farw yn y ffydd, a gweddïwn am i ni gael rhannu gyda hwy yn llawenydd dy bresenoldeb yn dragwyddol.

## DYDD SADWRN, MAWRTH 7

Gweddïwn drosom ein hunain: helpa ni i adnabod dy gariad, i wrando ar dy alwad, ac i fyw fel halen a goleuni yn y byd.

MYFYRDOD

# MAWRTH 8-14

## CHWAEROLIAETH FEIBLAIDD

**Dr Sanjana Das – diwinydd ffeministaidd, un sy'n sefyll dros urddas a hawliau merched sydd wedi eu masnachu ac wedi gorfod ymfudo.**

Mae gweithio gorfodol ('forced labour')yn dal i fod yn anghyfiawnder byd-eang enbyd. Yn 2021, cynhyrchwyd dros US$236 biliwn drwy ecsbloetio 27.6 miliwn o bobl. Yn aml, wyneba merched mewn amaeth, adeiladu, gwaith domestig a gwaith rhyw, gyflogau isel, amodau gwaith peryglus, dyled, a cham drin, gyda nemor ddim i'w diogelu. Fel Eglwys a chymunedau ffydd, rhaid i ni ofyn: sut y daethom i'r fan hon, pwy sy'n dioddef fwyaf, a beth ddylen ni ei wneud am hyn mewn ymateb i'n galwad i "wneud beth sy'n iawn a charu [trugaredd]" (Micha 6:8)?

Mae fy ngwaith yn canolbwyntio ar ferched yn neheudir y byd sydd wedi eu masnachu ac wedi gorfod ymfudo. Yn fy ymchwil, defnyddiais fethodoleg ffeministaidd ac astudiaeth Feiblaidd gyd-destunol i wrando ar straeon a phrofiadau merched a dysgu drwyddynt. Buom yn darllen stori Ruth, gan ymchwilio i brofiadau Beiblaidd a chyfoes merched fel Ruth sydd wedi gorfod ymfudo i ddod o hyd i waith, i hawlio lle yn eu dinasoedd newydd, a cheisio calonogi eu hunain a'i gilydd, cynnal eu teuluoedd a byw a gweithio gydag urddas. Caiff merched ar y cyrion eu cynorthwyo, drwy'r broses hon, i feddwl am eu profiadau yng ngoleuni gwydnwch cymeriadau Beiblaidd, a dod i sylweddoli fod ganddynt rym yn eu dwylo, fod ganddynt urddas a bod Duw yn eu hadfer.

Trwy lens yr Ysgrythur, gall merched sôn am yr anghyfiawnderau y maent yn eu hwynebu, a gweld ffyrdd ymlaen. Mae hyn hefyd yn ysgogi gweithredu, trwy alw am waith gweddus, cefnogaeth i'r rhai sydd wedi goroesi, hyrwyddo arfer moesegol, a herio systemau sy'n ecsbloetio.

A ydym yn barod i ymateb? Teilynga'r rhai sy'n gwneud ein dillad, yn cynaeafu'n bwyd neu'n adeiladu'n tai, urddas a chyfiawnder. Y mae gweledigaeth Eseia o "nefoedd newydd a daear newydd" (Eseia 65:17) yn ein herio i weddïo am, ac adeiladu, byd mwy cyfartal.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, MAWRTH 8 – TRYDYDD SUL Y GRAWYS / DYDD RHYNGWLADOL MENYWOD

Dduw pawb oll, rhown ddiolch am nerth, gwroldeb a chreadigrwydd menywod ar draws y byd. Boed i ni, dan ysbrydoliaeth galwad Amos am i gyfiawnder “lifo fel afon gref” (Amos 5:24), gydweithio i chwalu cylchoedd gorthrwm ac adeiladu byd lle mae pob menyw yn cael ei gwerthfawrogi, yn ddiogel ac yn rhydd.

## DYDD LLUN, MAWRTH 9

Dduw grasol, rhown ddiolch fod dy Air yn dwyn iachâd pan mae ofn, poen ac ansicrwydd yn ein hamgylchynu ni.

## DYDD MAWRTH, MAWRTH 10

Dduw grasol, diolchwn i ti am ein partner, Eglwys Gogledd India a’i gwaith i atal priodasau gorfodol a masnachu pobl, trwy addysg a chynyddu ymwybyddiaeth. Gweddïwn am i ti fendithio’r weinidogaeth hon.

## DYDD MERCHER, MAWRTH 11

Dduw trugarog, agor ein llygaid i weld anghyfiawnderau ac ymdrechion anweledig pobl sy’n cael eu masnachu. Dysg ni i lefaru a gweithredu’n feiddgar dros ryddid.

## DYDD IAU, MAWRTH 12

Dduw gwroldeb a thosturi, dihuna ynom y gonestrwydd i edrych i mewn i’n gweithredoedd ein hunain. Maddau’r adegau pan y bu i ni edrych i ffwrdd neu weithredu heb feddwl. Helpa ni i siopa, bwyta a byw mewn ffyrdd sy’n anrhydeddu eraill ac yn rhoi blaenoriaeth i urddas a chyfiawnder i bawb.

## DYDD GWENER, MAWRTH 13

Dduw grasol, diolch i ti am Dr Sanjana Das a’i gwaith gyda menywod sy’n cael eu masnachu ac wedi gorfod ymfudo. Dyro iddi gael gorffwys, doethineb a gwroldeb i barhau’r gwaith hollbwysig hwn.

## DYDD SADWRN, MAWRTH 14

Dduw trugarog, gweddïwn dros y sawl sy’n masnachu pobl ac sy’n ecsbloetio eraill. Datgela eu drygioni, agor eu calonnau i edifarhau, ac arwain hwy tuag at gyfiawnder, er mwyn i fywydau eraill fod yn rhydd o gamdriniaeth ac i urddas gael ei adfer.

MYFYRDOD

# MAWRTH 15-21

## GALARNAD A GOBAITH

**Kennedy Jones – Swyddog Cyfranogiad Eglwysi a Chodi Arian**

Yn un o weithdai diweddar USPG, cefais fy synnu a'm brawychu i ddeall fod yr Eglwys wedi bod ynghlwm yn y fasnach caethwasiaeth, ac wedi camddefnyddio ysgrythur i gyfiawnhau gorthrwm a hierarchaeth hiliol. Mae'r hanes hwn yn dal i lywio'r modd y caiff hil ei ddeall gan gymunedau Cristnogol. Yn ein trafodaethau, rhannodd cyfranwyr eu hymdrechion parhaus i fyw mewn sefyllfaoedd a gafodd eu creu gan yr hanes hiliol a chrefyddol hwn. Dywedodd un person, "Rydym wedi blino. Rwy'n teimlo nad wyf yn gwneud mwy na chadw'n fyw... Rydym jyst wedi blino."

Rhannodd y Parchg Ddr Carlton Turner, diwinydd o'r Caribi oedd yn siaradwr gwadd, stori rymus am wraig yn darganfod llyfr teuluol oedd yn rhestru caethweision a berchnogwyd unwaith gan ei hynafiaid. Soniodd am bwysau'r trawma a etifeddwyd a'n hatgoffa "nad yw'r Eglwys yn gwybod sut mae gwir alaru... ond mae Iesu'n gwybod – mae'n wylo, yn gwyrdroi byrddau, ac yn teimlo dyfnder tosturi."

Fel menyw Affricanaidd-Americanaidd, rwyf wedi dysgu am hanes caethwasiaeth mewn modd oedd yn peri i fyfyrwyr duon deimlo'n wirioneddol anghysurus, ac wedi mynychu nifer o gynadleddau ar gyfiawnder hiliol. Mae pob person du rwy'n ei adnabod yn ceisio canolbwyntio wrth wrando ar yr hanes poenus hwn a dwyn tystiolaeth Gristnogol. Ond rhaid i ni hefyd ddiogelu ein hiechyd emosiynol. Dyma'r tyndra personol i ni.

Yn y diwedd, deuthum o weithdy USPG yn teimlo fod arnom angen mawr am Iesu. Ni all unrhyw ymdrech na strategaeth o'n heiddo ni ddwyn yr iachâd rydym yn dyheu amdano. Rhaid i Iesu fod yn y canol os ydym i symud ymlaen mewn unrhyw fodd.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, MAWRTH 15 – PEDWERYDD SUL Y GRAWYS / SUL Y MAMAU

Darllenwch a myfyriwch ar Ioan 9:1-41

## DYDD LLUN, MAWRTH 16

Gweddïwn dros y sawl a effeithir o hyd gan dreftadaeth caethwasiaeth ac anghyfiawnder hiliol. Boed i Dduw ein harwain i gydnabod y drwg a wnaed ac i weithio dros gymod ac iachâd.

## DYDD MAWRTH, MAWRTH 17

Gweddïwn dros gymunedau sy'n dwyn pwysau trawma ac anghyfartaledd systemig y maent wedi eu hetifeddu. Boed iddynt brofi cysur, nerth a gobaith Duw ym mhob agwedd ar fywyd.

## DYDD MERCHER, MAWRTH 18

Gweddïwn am wroldeb i lefaru yn erbyn anghyfiawnder. Boed i'n geiriau a'n gweithredoedd adlewyrchu tosturi ac ymrwymiad Crist i wirionedd, trugaredd a chydraddoldeb.

## DYDD IAU, MAWRTH 19 – GŴYL SANT JOSEPH

Diolchwn am Sant Joseph a'i esiampl mewn gofal, gwarchod a gwasanaeth tawel. Boed i ni ddilyn ei esiampl drwy gefnogi ac amddiffyn y pobl fregus yn ein cymdeithas.

## DYDD GWENER, MAWRTH 20

Gweddïwn dros eglwysi a chymunedau ffydd sy'n ceisio bod yn wrth-hiliol. Dyro iddynt ddoethineb, dyfalbarhad a graslonrwydd wrth iddynt geisio herio rhagfarn ac adeiladu cymunedau cynhwysol.

## DYDD SADWRN, MAWRTH 21 – DYDD RHYNGWLADOL DROS DDILEU RHAGFARN HILIOL

Gweddïwn am gyfiawnder hiliol ar draws y byd. Boed i ni gael ein hysgogi i weithredu gyda chariad a gwroldeb, gan wrthwynebu anghyfartaledd a sefyll ochr yn ochr â'r sawl sydd â'u hurddas wedi ei wadu iddynt.

DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# MAWRTH 22-28

## DAEARGRYN MYANMAR: WEDI BLWYDDYN

**Y Parchg Davidson Solanki – Rheolwr Rhanbarthol Hŷn dros Asia a'r Dwyrain Canol**

Yr adeg yma llynedd, tarodd daeargryn dinistriol, o faint 7.7, ganolbarth Myanmar, gan ladd 3,000 a gadael 4,500 ag anafiadau. Ymatebodd Eglwys Talaith Myanmar, partner hirdymor i USPG, trwy ddangos cariad Crist, arweiniad gwrol, a thosturi.

Cyflawnwyd llawer ar draws Esgobaethau Mandalay a Taungoo. Ailadeiladwyd rhai eglwysi, tra bu'n rhaid i eraill aros cyn cael caniatâd swyddogol i fynd ymlaen â'r gwaith. Bu arweinwyr eglwysig yn trefnu i sicrhau deunydd adeiladu, oedd yn costio mwy a mwy. Bu Eglwys Talaith Myanmar yn codi arian i gefnogi ailadeiladu eglwysi ac estyn cymorth tymor byr i deuluoedd a effeithiwyd. Bu'r ymdrechion hyn yn help i gymunedau symud o gymorth brys tuag at adferiad parhaol.

Yn ôl un person a dderbyniodd gymorth, "Rwyf mor hapus gan y gallaf yn wirioneddol deimlo'r cariad y mae'n heglwys yn dangos tuag atom. Trwy'r gefnogaeth hon, rwyf hyd yn oed yn fwy diolchgar i Dduw. Er bod ein tŷ wedi ei niweidio'n enbyd, rwyf mor ddiolchgar, a hoffwn ddiolch yn ddiffuant i bawb a gyfrannodd." Ychwanegodd person arall, "Cawsom gymorth beth bynnag oedd ein hil neu'n crefydd, ac mae hynny'n golygu cymaint i mi."

Meddai Stella, Cyfarwyddwraig yr Adran Daleithiol, "Mae gweld gwên ar wynebau pobl, a'u rhyddhad, a gweld eu gobaith yn cael ei adfer, yn rhoi nerth i mi. Rwy'n ddiolchgar ein bod wedi bod â rhan yn cyfarfod â'u hanghenion a'u pryderon brys a real."

Diolch i'ch haelioni chi, mae cefnogaeth Eglwys Talaith Myanmar yn adfer urddas, diogelwch a gobaith i bobl sydd wedi dioddef cymaint.

# GWEDDÏO

## DYDD SUL, MAWRTH 22 – PUMED SUL Y GRAWYS

Darllenwch a myfyriwch ar Ioan 11:1-45

## DYDD LLUN, MAWRTH 23

Rhown ddiolch am wydnwch pobl Myanmar a oresgynnodd y daeargryn a ddigwyddodd llynedd a’r gwrthdaro a ddilynodd. Boed iddynt barhau i brofi cysur a nerth Duw wrth i’w cymunedau gael eu hailadeiladu.

## DYDD MAWRTH, MAWRTH 24

Gweddïwn dros arweinwyr eglwysi a chymunedau sydd wedi cefnogi’r gwaith o adfer adeiladau cymunedol, eglwysi ac ysgolion. Dyro iddynt ddoethineb a dyfalbarhad wrth iddynt barhau gyda’r gwaith hwn.

## DYDD MERCHER, MAWRTH 25 – CYHOEDDI EIN HARGLWYDD I FAIR FORWYN FENDIGAID

Rhown ddiolch am ddewrder Mair wrth ddweud “Ie” i alwad Duw. Boed i’w hesiampl ysbrydoli pawb sy’n credu i ymddiried yn barhaol a gwasanaethu’n ffyddlon.

## DYDD IAU, MAWRTH 26

Arglwydd, diolch i ti am y rhai sydd wedi cynnig cefnogaeth yn y flwyddyn ddiwethaf ym Myanmar: pobl sy’n gweithio i’r eglwysi, yn gwirfoddoli, yn gweithio i asiantaethau cymorth, a phawb sy’n ffyddlon eu cefnogaeth.

## DYDD GWENER, MAWRTH 27

Gweddïwn am i’r gwaith o ailadeiladu eglwysi ac adeiladau cymunedol barhau ym Myanmar. Boed i’r mannau hyn ddal i fod yn fangreoedd o addoli, lloches a gwydnwch i’w cymunedau.

## DYDD SADWRN, MAWRTH 28 – AWR Y DDAEAR

Heddiw cofiwn mor fregus yr ymddengys ein daear yn wyneb daeargryn Myanmar. Boed i’r ymwybyddiaeth hon ein hysbrydoli i ofalu am ein byd ac edrych ymlaen at y dydd pan fydd popeth wedi ei adfer (Datguddiad 21.1 ymlaen)



MYFYRDOD

# MAWRTH 29 – EBRILL 4

## YR WYTHNOS FAWR

**Y Parchg Kenson Li – Curad Cynorthwyol yn Eglwys Gadeiriol Manceinion ac Ymddiriedolwr, USPG**


Darllenwch Salm 118.1–2, 19 – diwedd, a adnabyddir fel Salm Litwrgi'r Palmwydd.

Mae Eglwys Gadeiriol Manceinion, lle rwyf yn gweithio, dros 600 mlwydd oed. Er hynny, nid oes gennym ffenestri lliw sy'n dyddio yn ôl i'r cyfnod pan adeiladwyd yr eglwys, gan i ni gael ein bomio yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac oherwydd i ni ddioddef difrod yn dilyn bomio gan yr IRA yn 1996. Ar draws y ddinas, gwelwn gofebau i golledion trasig eraill: cofeb Cyflafan Peterloo gyferbyn â Neuadd Bridgewater, a 'Chofeb Llannerch y Goleuni' tu allan i'r Eglwys Gadeiriol, yn cofio am y bywydau a gollwyd yn yr ymosodiad gan derfysgwyr yn Arena Manceinion.

Ond nid yw Manceinion yn ddinas drist; rydym yn ddinas egnïol sy'n llawn bywyd. Credaf mai'r achos am hyn, i ddyfynnu Oasis, band enwocaf ein ddinas, yw: 'nid ydym yn edrych yn ôl gyda dig' ("we don't look back in anger").

Wrth i ni ymlwybro tua'r Groes, y mae gennym lawer i alaru amdano: y drygioni y mae dynolryw yn medru ei gyflawni, y dinistr y mae blys ac ideoleg yn ei achosi… ond ar yr un pryd, mae gennym lawer i ddiolch amdano: cariad Duw sy'n drech nag angau a phechod, y cymod rhwng pobl a wneir yn bosibl oherwydd y maddeuant sy'n pelydru o Groes Crist.

Nid wyf yn credu fod Duw "yn edrych yn ôl gyda dig" pan groeshoeliwyd Iesu. Credaf fod Duw yn edrych tua dyfodol llawn goleuni a bywyd. Boed i ni wneud hynny hefyd wrth i ni syllu ar ryfeddod y Groes yn ystod y Groglith hwn, a phob dydd o'n bywyd.



**Llun: Y Ffenestr Dân, Eglwys Gadeiriol Manceinion. Dioddefodd niwed yn ystod y bomio gan yr IRA yn 1996. Adferwyd gan yr un artist.**



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, MAWRTH 29 – SUL Y BLODAU (SUL Y PALMWYDD)

Iesu, Mab Duw a mab Dafydd, aethost i mewn i Jerusalem mewn gostyngeiddrwydd er mwyn perffeithio'n cariad trwy dy farwolaeth. Boed i bawb sy'n byw yng ngwlad dy eni wybod fod cariad a maddeuant bob amser yn gryfach nag arfau a blys.

## DYDD LLUN, MAWRTH 30 – DYDD RHYNGWLADOL DIM GWASTRAFF

Dduw sy'n dioddef, wrth i Gristnogion gerdded ffordd y Groes yr Wythnos Fawr hon, atgoffa ni fod yr hyn sy'n ein huno mewn ffydd yn fwy na'n rhaniadau. Boed i ni fod yn wir bartneriaid yn yr Efengyl lle bynnag mae'n cenhadaeth yn mynd â ni, beth bynnag y gwahaniaethau mewn arferion.

## DYDD MAWRTH, MAWRTH 31

Arglwydd y Saboth, helpa ni i ymddiried ynot, i fwrw'n beichiau arnat, ac i wybod dy fod yn ein cynnal ar bererindod bywyd. Pan ddisgyn y tywyllwch neu pan fo'r ffordd yn anodd, danfon dy Ysbryd i'n cysuro a'n sicrhau o'th bresenoldeb.

## DYDD MERCHER, EBRILL 1

Dduw hael, cofiwn fel y bu i Jwdas Iscariot dy fradychu am arian. Trawsnewid galonnau a reolir gan gariad at gyfoeth yn hytrach na chariad atat ti a'th bobl. Rho i ni galonnau hael i wybod fod rhoddi yn well na derbyn, a bod caru cymydog yn golygu dy garu di.

## DYDD IAU, EBRILL 2 – DYDD IAU CABLYD

Fy Arglwydd a'm Duw, yr hwn o gariad at y byd a roddaist i ni ddirgelwch yr ewcharist, dysg ni i'th weld di mewn bara a dorrwyd a gwin a dywalltwyd, ac felly i'th adnabod di yn wyneb y rhai y mae cymdeithas yn eu hesgeuluso.

## DYDD GWENER, EBRILL 3 – Y GROGLITH

Iesu, Waredwr y byd, a orffwysaist yn y bedd a'i sancteiddio fel gwely o obaith: helpa ni i fod yn ymwybodol o'n hangen dwfn am faddeuant, a grym mwy dy gariad tragwyddol.

## DYDD SADWRN, EBRILL 4

Dad cariadus, gweddïwn dros y sawl nad yw'r Pasg yn dwyn unrhyw lawenydd na gobaith iddynt. Gwna ni yn Bobl Atgyfodiad, yn sensitif i ddioddefaint pobl eraill, fel y gallwn rannu â nhw lawenydd y Pasg, er clod i'th enw di ac nid er clod i ni'n hunain.

MYFYRDOD

# EBRILL 5-11

## YN YR ARDD

**Rachel Weller - Swyddog Cyfathrebu, USPG**

Gwêl Esgobaeth Zululand ei chenhadaeth fel rhywbeth mwy nag addoliad, ond fel gweithio i adeiladu cymunedau gwydn. Trwy Asiantaeth Esgobaethol Masinakekelane (“i ofalu am ein gilydd”), mae’n wynebu heriau cymdeithasol ac economaidd – estyn cymorth i bobl mewn trychineb, i ddioddefwyr trais, ac i deuluoedd lleol. Un o’i prif weithgareddau yw’r Prosiect Gerddi a Gwydnwch Bwyd.

Ar y bore Pasg cyntaf hwnnw, daeth y gwragedd i ardd yn disgwyl dim ond marwolaeth a cholled. Ond daethant wyneb yn wyneb â’r Crist byw – bywyd lle bu anobaith, gobaith lle bu tristwch. Roedd y bedd gwag yn cyhoeddi na ellir claddu cariad Duw, ac mai nid Iesu yn unig sy’n cael ei atgyfodi, ond y cread cyfan.

Yn Zululand, mae Ntombitheni yn tendio’i gardd atgyfodiad ei hunan. Ar un adeg roedd yn anodd iddi gael dau ben llinyn ynghyd, ond yn awr y mae’n dyfrhau rhesi o spigoglys (spinach), bresych a tomato, er mwyn cynnal ei theulu a bwydo’i chymuned. Trwy Brosiect Gerddi a Gwydnwch Bwyd Esgobaeth Zululand, daeth hadau a blannwyd yn y pridd yn arwyddion o fywyd llawn gan Dduw – bwydo plant ysgol, sicrhau incwm i deuluoedd, ac adeiladu gwydnwch mewn cyfnodau o galedi.



Wrth i ni ddathlu’r Pasg yr wythnos hon, cofiwn na chyfyngir y Pasg i’r gorffennol. Mae Iesu’n fyw ac yn trawsnewid bywydau hyd heddiw. Lle bynnag y plennir cariad, lle bynnag y dyfrheir cyfiawnder, lle bynnag y mae cymunedau yn gofalu am ei gilydd, cawn gipolwg ar yr Arglwydd Atgyfodedig yn cerdded o hyd yn yr ardd.



GWEDDÏO

## DYDD SUL, EBRILL 5 – SUL Y PASG

Darllenwch a myfyriwch ar Mathew 28:1-10. Cyfododd Iesu!

## DYDD LLUN, EBRILL 6

Dduw cariadus, ysbrydola bawb sy'n gweithio yn Esgobaeth Zululand i weithredu gyda thosturi a dyfalbarhad. Boed i bob ymdrech i gefnogi cymunedau fod yn gynaliadwy, gan adlewyrchu dy gariad.

## DYDD MAWRTH, EBRILL 7 – DYDD IECHYD BYD-EANG

Dduw'r Crëwr, rhown ddiolch am waith USPG mewn ysbytai a chlinigau cenhadol, am nyrsys a meddygon, a phawb sy'n gofalu am yr afiach. Nertha ac amddiffyn nhw i fod megis dy ddwylo a'th draed di mewn sefyllfaoedd anodd.

## DYDD MERCHER, EBRILL 8

Dduw cariadus, diolchwn i ti am Ntombitheni, ei chyd-arddwyr, ac Asiantaeth Esgobaethol Masinakekelane. Boed i'r gwaith yn yr ardd barhau i dyfu gwydnwch a nerth mewn cymunedau ar draws y rhanbarth.

## DYDD IAU, EBRILL 9

Dduw trugarog, gweddïwn dros ysgolion a theuluoedd sy'n derbyn llysiau ffres o'r ardd. Gwarchod iechyd a lles bob person, a helpa'r eglwys i gwrdd ag anghenion ymarferol plant a theuluoedd.

## DYDD GWENER, EBRILL 10

Dduw grasol, diolch i ti am y bartneriaeth rhwng Esgobaeth Zululand ac USPG. Boed i'r bartneriaeth hon barhau i feithrin gobaith, a chynnig cefnogaeth i'r rhai sydd mewn angen.

## DYDD SADWRN, EBRILL 11

Dad nefol, diolchwn i ti am Esgob Vikinduku Mnculwane a'r arweiniad y mae'n ei roi i Esgobaeth Zululand. Nertha ef i geisio dy arweiniad di uwchlaw popeth arall, gan ymddiried ynot fel Duw ffyddlon.



DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# EBRILL 12-18

# WEDI'I STOCIO Â GOBAITH

**Mayank Thomas – Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Gwasanaethau Cymdeithasol Synod Eglwys Gogledd India**

Wyneba llawer o fenywod Gogledd India rwystrau economaidd a chymdeithasol oherwydd anghydraddoldeb hir-dymor. Creda Eglwys Gogledd India mewn urddas i bawb ac felly mae'n ymateb trwy gefnogi datblygu sgiliau, creu cyfleoedd am incwm, a dadlau achos cymunedau, er mwyn helpu menywod i ennill annibyniaeth economaidd a chael llais cryfach pan wneir penderfyniadau.

Mae Shaila* yn byw ym mhentref Palma yn Itki gyda'i gŵr a'u merch wyth mlwydd oed. Gydag incwm ei gŵr yn dod drwy waith cyflogaeth ddyddiol anghyson a'i siop nwyddau fechan hi yn sicrhau incwm bychan yn unig, mae'r teulu wedi'i chael yn anodd yn aml i ddal dau ben llinyn ynghyd. Pryder mwyaf Shaila yw addysg eu merch. Y mae'n ofni y gallai prinder ariannol ei rhwystro rhag derbyn addysg gyson. Ym mis Rhagfyr, gwelodd belydr o obaith pan cynigiodd Eglwys Gogledd India gymorth ariannol trwy ei rhaglen gwasanaethau cymdeithasol. Defnyddiodd Shaila'r cymorth hwn i ehangu ei siop nwyddau, gan ychwanegu at amrywiaeth a nifer y nwyddau ar gael yno, a thrwy hynny dechreuwyd denu mwy o gwsmeriaid.

Wrth i'w hincwm gynyddu, enillodd Shaila fwy na rhyddhad ariannol – daeth hunan-barch, hyder a phwrpas yn ei sgil. Yn awr, gall ddanfon ei merch i'r ysgol a rhedeg ei siop gyda balchder, gan wybod ei bod yn sicrhau dyfodol ariannol ei theulu. Mynega Shaila ei gwerthfawrogiad o waelod calon i Eglwys Gogledd India: "Diolch i'w cefnogaeth nhw, mae menywod fel fi yn raddol ddod yn gryfach yn economaidd. Rwy'n wirioneddol ddiolchgar." Stori o nerthu a thrawsnewid tawel yw ei stori hi, wedi eu gwneud yn bosibl trwy Eglwys sy'n sylwi, yn gofalu ac yn gweithredu.

*enw wedi'i newid

# GWEDDÏO

## DYDD SUL, EBRILL 12

Darllenwch a myfyriwch ar Ioan 20:19-31

## DYDD LLUN, EBRILL 13

Arglwydd, rhown ddiolch i ti am USPG a'i bartneriaeth ag Eglwys Gogledd India (EGI). Boed i'r cydweithio hwn barhau i gefnogi menywod gyda datblygu sgiliau, cyfleoedd am incwm a hunan-hyder.

## DYDD MAWRTH, EBRILL 14

Dduw, bendithia bawb sy'n ymuno â sesiynau ar urddas a hawliau cydradd yng ngwahanol rannau o Ogledd India. Cryfha eu lleisiau er mwyn iddynt arwain eraill at hunan-barch, tegwch a chydraddoldeb.

## DYDD MERCHER, EBRILL 15

Dad nefol, cyfarwydda'r gwaith o ffurfio asiantaethau menywod ar lawr gwlad yn dalgylch EGI. Boed i'r grwpiau hyn weithredu'n ddewr i fynd i'r afael â thrais domestig, sicrhau mynediad i raglenni'r Llywodraeth a gwarchod hawliau menywod.

## DYDD IAU, EBRILL 16

Arglwydd, bendithia Gristnogion Gogledd India. Ysbrydola nhw trwy eu hymwneud anffurfiol â'i gilydd, trwy weddi a thrwy ddigwyddiadau cymunedol, i ddarganfod eu bod yn cael eu derbyn gan y Duw sydd yn eu gweld.

## DYDD GWENER, EBRILL 17

Dduw, bendithia fenywod fel Shaila sy'n defnyddio busnesau bach i gynnal eu teulu. Boed i'w hymdrechion ddangos y ffordd tuag at hunan-barch, sicrhau pwrpas mewn bywyd, plannu gobaith am annibyniaeth economaidd a chynnig arweinyddiaeth i'r gymuned.

## DYDD SADWRN, EBRILL 18

Dad nefol, cyflwynwn i ti Eglwys Gogledd India. Boed iddi ffynnu fel goleudy o obaith, atgyfnerthiad, cyfiawnder a chydraddoldeb, gan ymestyn allan ar draws pob pentref a thref y mae'n eu gwasanaethu gyda chariad Crist.



DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# EBRILL 19-25

## TROI GWASTRAFF YN RHYFEDDOD

**Linet Musasa – Aelod Tîm Rhaglen Partneriaid dros Newid Hinsawdd Holl-gynhwysol yn enw'r Efengyl, Cyngor Anglicanaidd Zimbabwe**

Ar adeg pan mae newid hinsawdd yn cynnig bygythiad cynyddol i'r blaned hon, mae atebion newydd yn tarddu o fannau annisgwyl.

Daw un stori am greadigrwydd a phosibilrwydd oddi wrth Angela Manomana, gweddw 62 mlwydd oed yn Esgobaeth Canol Zimbabwe (sydd â'i swyddfa yn Gweru). Mae Angela wedi troi pethau y mae'r rhan fwyaf yn ei weld fel sbwriel yn drysor. Gyda gweledigaeth, mae'n mynd ati yn ymroddgar i drawsnewid plastig a daflwyd i ffwrdd yn fagiau llaw, yn fatiau, hetiau a blychau storio i'r tŷ. Mae'r hyn ddechreuodd fel poteli a phlastig lapio yn troi'n cynhyrchion prydferth, defnyddiol, sy'n rhyfeddol o boblogaidd mewn ffeiriau eglwysi!

Dros y 15 mlynedd diwethaf, bu Angela'n anadlu bywyd newydd i mewn i wastraff, tra'n glanhau'r amgylchedd ar yr un pryd. Ond nid yw'n stopio fan hyn: mae hefyd yn mentora pum person ifanc yn Gweru, er mwyn iddi drosglwyddo ei sgiliau a dangos iddynt sut mae gweld potensial mewn pethau y mae eraill yn eu taflu i ffwrdd.

Cefnogir yr ymgyrch *Waste Smart, We Care*, sy'n bartneriaeth rhwng tair Talaith: Eglwys Talaith Canol Affrica (sy'n cynnwys Malawi, Zimbabwe, a Zambia), Eglwys Anglicanaidd Cefnfor India (Mauritius, Madagascar, a'r Seychelles) ac Eglwys Anglicanaidd Tanzania, gan USPG.

Amcan yr ymgyrch yw ceisio rhoi yn nwylo eglwysi a chymunedau ar draws y 47 esgobaeth y wybodaeth a'r adnoddau i ddeall yr her ddifrifol y mae newid hinsawdd yn ei gosod. Trwy weithredu ymarferol ac ymwneud cymunedol, mae'r ymgyrch yn dangos y gall yr Eglwys fod â chonsyrn dros gread Duw, ymateb i heriau amgylcheddol, a helpu pobl i adeiladu cymunedau cryfach, mwy cynaliadwy.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, EBRILL 19 – DYDD Y DDAEAR

Dduw trugarog, galarwn am y niwed a wneir i'th gread, yn arbennig trwy'r hyn a wnawn ni. Maddau ein hesgeulustod a'n blys, a helpa ni i gymryd cyfrifoldeb dros y sefyllfa. Arwain ni i ofalu am y ddaear, i weithredu'n gyfiawn ac i warchod dy gread er mwyn pob person a phob creadur.

## DYDD LLUN, EBRILL 20

Dad nefol, rhown ddiolch i ti am yr ymgyrch "*Waste Smart, We Care*". Bendithia gymunedau ac eglwysi wrth iddynt ddysgu am newid hinsawdd, mabwysiadu arferion cynaliadwy, a gofalu am dy gread.

## DYDD MAWRTH, EBRILL 21 – GŴYL SAN SIÔR

Arglwydd, rho ddewrder a chreadigrwydd i bawb sy'n rhannu mewn gweithgarwch sy'n ymwneud â'r hinsawdd. Bendithia Angela Manomana a'i hysgogwyr ifanc, ac ysbrydola gymunedau i droi heriau yn obaith a chyfle.

## DYDD MERCHER, EBRILL 22

Dduw grasol, bendithia'r Ymgyrch Daleithiol dros Newid Hinsawdd ar draws y 47 esgobaeth. Boed iddi newid calonnau, ysgogi gweithredu a chryfhau tystiolaeth yr Eglwys am ofal dros y cread.

## DYDD IAU, EBRILL 23


Arglwydd, gweddïwn dros yr Eglwys Anglicanaidd yn Zimbabwe a'i gwaith ehangach yn gwrthweithio stigma HIV. Bendithia'r esgobaethau a'r rhaglenni sy'n adfer urddas, yn cynnig cefnogaeth, ac yn addysgu cymunedau gyda thosturi.

## DYDD GWENER, EBRILL 24

Arglwydd, bendithia bartneriaeth USPG gyda'r Eglwys Anglicanaidd yn Zimbabwe. Nertha ein cyd-ymrwymiad i gyfiawnder a iachâd.

## DYDD SADWRN, EBRILL 25 – GŴYL SANT MARC

Gweddïwn am obaith ac ysgogiad yn ein Heglwysi a'n cymunedau er mwyn iddynt weithredu'n effeithiol yn erbyn newid hinsawdd. Boed i ni gael ein hysbrydoli i ddadlau dros bolisïau sy'n hyrwyddo gwydnwch ac sy'n gynaliadwy.





DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# EBRILL 26 – MAI 2

## GWEDDI A GWEITHREDU YM MHAKISTAN

**Y Parchg Davidson Solanki – Rheolwr Rhanbarthol Hŷn dros Asia a'r Dwyrain Canol**

Yn Eglwys Pakistan, a ffurfiwyd ym 1970 trwy uniad rhwng Eglwysi Anglicanaidd, Methodistaidd, Lutheraidd a Phresbyteraidd, cyfunir addoli, gwasanaeth a ffydd. Gydag wyth esgobaeth, ac yn cael ei llywodraethu gan synod o esgobion a chlerigion, canolbwyntia'r Eglwys ar efengylu, addysg, gofal iechyd, datblygiad cymdeithasol, grymuso ieuenctid a menywod, a gweithredu ar yr amgylchedd. Mae'n cynnig cymorth mewn trychinebau, ac yn hyrwyddo hawliau dynol, cenhadaeth a wnaed yn fwy tyngedfennol gan y llifogydd dinistriol diweddar.

Ers cychwyn y *monsoon* ym Mehefin 2025, mae llifogydd difrifol wedi rhwygo drwy nifer o daleithiau, gyda'r Punjab yn dioddef yn arbennig. Bu i afonydd Ravi, Sutlej, a Chenab orlifo'u glannau, gan greu'r llifogydd mwyaf yn hanes y Punjab a'r tro cyntaf i'r tair afon godi mor uchel ar yr un adeg. Symudwyd dros 1.2 miliwn o bobl o'u cartrefi, ac mae dros 3.3 miliwn o bobl mewn tua 3,300 o bentrefi a threfi wedi eu heffeithio ar draws dwyrain y dalaith.

Oddi fewn i'r Eglwys, dioddefodd esgobaethau megis Raiwind, Lahore, Sialkot, Faisalabad, a Multan ddifrod arwyddocaol. Mae llawer wedi colli eu cartrefi, eu cnydau, a'u bywoliaeth, ac mae eglwysi gwledig mewn angen brys am gael eu trwsio. Effeithiwyd ar Gristnogion yn arbennig, gan godi pryder y caiff eu cyflwr ei anghofio yn yr ymdrechion ehangach i estyn cymorth.

Yn ei hymateb, mae'r Eglwys yn dal i alw ar y ffyddloniaid i gynnig "gweddi a gweithredu" dros y mwyaf anghenus. Mae Esgobaeth Raiwind yn cymell rhwydweithiau plwyfol i sicrhau cyflenwad o fwyd, dŵr glân, a chefnogaeth hanfodol arall, i helpu cymunedau i ddelio ag effeithiau cychwynnol y llifogydd ac i atal heintiau. Gan weithio ochr yn ochr ag USPG a phartneriaid Anglicanaidd, anela'r ymdrechion hyn nid yn unig i helpu Cristnogion ond hefyd i helpu eu cymdogion Mwslimaidd, gan adeiladu solidariaeth ac arddangos cariad Crist ar waith.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, EBRILL 26

Darllenwch a myfyriwch ar Ioan 10:1-10

## DYDD LLUN, EBRILL 27

Arglwydd, cyflwynwn Pakistan ger dy fron, a phawb sy'n dal i ddod dros y llifogydd diweddar. Bendithia'r gwanaf a'r mwyaf bregus. Boed i'th bresenoldeb ddwyn cysur a gobaith newydd i'r sawl sy'n ailadeiladu eu bywydau.

## DYDD MAWRTH, EBRILL 28

Dad nefol, fel cymunedau sy'n dal i gael ein hiachau a'n hailadeiladu, boed i'th heddwch ymestyn fel pabell fawr dros ein gwlad, gan orchuddio pob person â'th drugaredd, â'th ofal, ac â thangnefedd fydd yn parhau.

## DYDD MERCHER, EBRILL 29

Arglwydd, bendithia Eglwys Pakistan wrth iddi geisio gwasanaethu ei holl gymdogion. Boed i'w gweithredoedd o ofal yn dilyn y llifogydd ddangos fod cariad Crist ar waith, hyd yn oed ar draws ffiniau ffydd.

## DYDD IAU, EBRILL 30

Dduw cariadus, gweddïwn dros y Parchedicaf Ddr Azad Marshall, Llywydd Esgobol Eglwys Pakistan ac Esgob Raiwind, a holl esgobion ac aelodau esgobaethau eraill Eglwys Pakistan. Bydd yn obaith a nerth iddynt, ac yn bresenoldeb cyson, trwy dy Ysbryd.

## DYDD GWENER, MAI 1 – GŴYL SANT PHILIP A SANT IAGO

Dduw grasol, diolchwn i ti am dystiolaeth ffyddlon Philip ac Iago. Boed i ni, o dan ysbrydoliaeth eu esiampl, rannu dy gariad drwy wasanaeth, cryfhau cymunedau, a dwyn tystiolaeth i'th oleuni ym mhob peth a wnawn.

## DYDD SADWRN. MAI 2

Dad nefol, diolch i ti am bartneriaeth USPG ag Eglwys Pakistan. Cryfha ein cydweithio er mwyn i bawb ddod i adnabod dy gariad.



DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# MAI 3-9

# DILYN ARWEINIAD DUW

**Y Tad Thanduxolo Noketshe – Ficer St. Mary's a Christ Church yn Cayon, St Kitts a Nevis, Y Caribi**

Rwy’n dal mewn syndod at ryfeddod Duw a’r modd y mae’n gweu bywydau pobl ynghyd ar draws y byd. Rai misoedd yn ôl, derbyniais e-bost annisgwyl gan ddynes o Gymru, fu’n gysylltiedig ag USPG ers y ’60au. Roedd wedi dilyn fy stori drwy gylchlythyr USPG ac, wedi darganfod fod y llong y byddai ar fordaith arni yn galw yn St Kitts, fe gysylltodd â mi. Trwy ras Duw cawsom gyfarfod yn Port Zante. Er mai dyna’r tro cyntaf i ni gwrdd â’n gilydd, roedd fel petaem wedi adnabod ein gilydd am flynyddoedd. Cawsom hanner diwrnod hapus gyda’n gilydd, yn ymweld â Sandy Point – gan gofio’r cysylltiad â John Newton, y bu i’w dröedigaeth arwain at yr emyn *‘Amazing Grace’*.

Mae’r weinidogaeth a ymddiriedwyd i mi yn dal i ehangu. Rwyf yn awr yn gwasanaethu fel Caplan Undeb y Mamau yn St Kitts ac wedi bod yn cefnogi eu gweithgarwch, gan gynnwys penodi Mrs Noketshe yn is-ysgrifennydd. Yn ecwmenaidd, rwy’n cynrychioli’r Cyngor Cristnogol ar y Cyngor Cyffuriau Cenedlaethol ac yn gwasanaethu hefyd ar Bwyllgor Gwarchodaeth Biosffer St Mary’s, gan fod gofalu am gread Duw yn bwysig i mi.

Yn ystod gwyliau ysgol, torchais fy llewys gyda’m mab Olwabo a’i ffrindiau sy’n gwasanaethu wrth yr allor, ac aethom ati i weithio ar ardd fach yr eglwys. Buom yn chwynnu, yn dyfrhau ac yn plannu planhigion pupur ac wy-lysiau (*aubergines*). Roedd y plant wrth eu bodd yn cynaeafu *okra* a blodfresych, ac yn adfywio’u hunain gyda chnau coco o’r coed gerllaw. O’r tir syml daeth digonedd: beth fedrech chi ei wneud â’r hyn sydd gennych?

## GWEDDÏO

### DYDD SUL, MAI 3

Darllenwch a myfyriwch ar Ioan 14:1-14

### DYDD LLUN, MAI 4

*“Gweld fy ngalwad yn cael ei chyflawni yw’r rhodd a’r fendith fwyaf.”*

Dad nefol, llawenhawn yn rhodd yr alwad, a’r fendith o’i gweld yn dod yn fyw. Boed i weinidogaeth y Tad Thanduxolo gael ei thywys gan dy ddoethineb, a boed i bob gweithred o gariad, pob gair o dangnefedd a phob ymdrech at undeb ei ddwyn yn ddyfnach i’th bresenoldeb di.

### DYDD MAWRTH, MAI 5

Dad nefol, rhown ddiolch am USPG a’r modd y mae’n gweu bywydau at ei gilydd, hyd yn oed ar draws cyfandiroedd. Diolch i ti am y modd y mae hyn yn ein hatgoffa o’th bresenoldeb di.

### DYDD MERCHER, MAI 6

Dduw’r Crëwr, diolch i ti am rodd dy gread di. Bendithia’r Tad Thanduxolo wrth iddo wasanaethu ar Bwyllgor Gwarchodaeth Biosffer St Mary’s. Defnyddia’r gwaith hwn i’n hysbrydoli ni i warchod y ddaear ble bynnag yr ydym.

### DYDD IAU, MAI 7

Dad nefol, diolch i ti am ieuenctid St Mary’s a Christ Church. Arwain bob un ohonynt drwy gariad a chefnogaeth teulu ar draws y cenedlaethau.

### DYDD GWENER, MAI 8

Dad nefol, gweddïwn dros y Tad Thanduxolo a’i deulu wrth iddynt wasanaethu yn Esgobaeth Gogledd Ddwyrain y Caribi ac Aruba. Dyro iddynt orffwys, adnewyddiad ac adegau o lawenydd gyda’i gilydd, fel bod popeth a wnânt er dy ogoniant.

### DYDD SADWRN, MAI 9

Dad nefol, diolch i ti am Eglwys ehangach Talaith India’r Gorllewin. Bendithia’r clerigion a’r cynulleidfaoedd yno fel y byddant yn rhannu dy gariad, yn estyn allan i’w cymunedau, ac yn gogoneddu Iesu Grist trwy eu cenhadaeth ffyddlon.



DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# MAI 10-16

# RHIENI GYDA PHWRPAS

**Ella Sibley – Cyn Reolwraig Rhanbarthol Ewrop ac Oceania**

Yn 2011 y daeth y rhaglen *Positive Parenting* yn rhan o Eglwys Anglicanaidd Melanesia gyda chefnogaeth USPG. Amcan y rhaglen yw magu sgiliau adeiladu cyd-berthynas, cyfathrebu effeithiol a meithrin awdurdod teuluol, ar draws Ynysoedd y Solomon. Ymdrinnir â thrais domestig, cam-drin plant, camddefnyddio sylweddau (megis cyffuriau ac alcohol), a chwalu teuluoedd – materion sy'n effeithio dros ddwy ran o dair a fenywod a merched ynysoedd y Môr Tawel.

Yn ddiweddar, denodd cwrs hyfforddi Y Bugail Da, yng Ngogledd Guadalcanal, ysgogwyr o wahanol blwyfi yn Temotu at ei gilydd i archwilio cylchoedd teuluol, newidiadau mewn ymddwyn, datblygiad plant, a diogelwch mewn teulu. Trwy ymarferion ar y cyd, megis mynd ar daith gerdded, gallai bobl brofi pwysigrwydd ymddiriedaeth a chefnogaeth o'i gilydd rhwng rhieni a phlant.

I Mrs. Sandra Rollands, mae'r nod yn amlwg: adeiladu teuluoedd mwy diogel a chryf, sy'n fagwrfa meithrin a gofalu. Gwneir hynny trwy alluogi arweinwyr lleol i roi cefnogaeth i rieni yn eu hardaloedd. Gyda'u gwreiddiau yn nghenhadaeth yr Eglwys o arddangos cariad Duw ar waith, y mae'r rhaglenni *Positive Parenting* yn ymarferol yn ogystal ag yn ysbrydol. Gydag ysgogwyr wedi eu hyfforddi ac yn barod i fynd â'r negeseuon hyn yn ôl i'w plwyfi, gobaith Sandra yw y bydd yr hadau a blannwyd yn tyfu'n deuluoedd gwydn ac yn gymunedau sy'n ffynnu. Fel y dwedodd, "Mae teuluoedd hapus yn creu cymunedau hapus ac, o ganlyniad, cenedl hapus."



# GWEDDÏO



## DYDD SUL, MAI 10 – DYDD RHYNGWLADOL MAMAU

Dad nefol, rhown ddiolch am famau, a phawb sy'n cyflawni rôl mam, ymhob man. Bendithia bob un gyda doethineb, amynedd, a chariad, wrth iddynt feithrin plant a chryfhau unedau teuluol.

## DYDD LLUN, MAI 11

Arglwydd, gweddïwn dros y rhaglen *Positive Parenting* a phawb sy'n ceisio cynorthwyo teuluoedd drwyddi. Boed i bob rhiant, plentyn ac arweinydd cymunedol brofi cyfarwyddyd, ymddiriedaeth a dealltwriaeth sy'n adeiladu teuluoedd cryfach a mwy diogel, drwy'r rhaglen.

## DYDD MAWRTH, MAI 12

Dduw grasol, bendithia Sandra Rollands a'r sawl sy'n arwain Undeb y Mamau yn Guadalcanal, Temotu, ac ar draws Ynysoedd y Solomon. Dyro iddynt ddyfalbarhad wrth iddynt hyrwyddo newid mewn teuluoedd a chymunedau.

## DYDD MERCHER, MAI 13

Arglwydd, gweddïwn dros deuluoedd sy'n wynebu heriau megis trais domestig, cam-drin plant, a thor- perthynas. Boed iddynt gael eu hamgylchynu â chefnogaeth ac iachâd, a'r adnoddau ymarferol i'w galluogi i dyfu mewn cariad, diogelwch a ffydd.

## DYDD IAU, MAI 14 – GŴYL SANT MATHIAS / DYDD IAU DYRCHAFAEL

Dad nefol, ar ddydd Gŵyl Sant Mathias a Dydd Iau Dyrchafael, rhown ddiolch i ti am apostolion ac arweinwyr a gawsant eu galw i dystiolaethu i'th gariad. Ysbrydola ni i ddilyn eu hesiampl, trwy dy nerth.

## DYDD GWENER, MAI 15 – DYDD RHYNGWLADOL TEULUOEDD

Dduw grasol, galarwn am fod cynifer o deuluoedd yn Ynysoedd y Solomon, ac ar draws y byd, yn ei chael hi'n anodd i fyw'n heddychlon a diogel. Dwg dy iachâd a'th gyfarwyddyd i adfer ymddiriedaeth ac i feithrin cariad ym mhob cartref.

## DYDD SADWRN, MAI 16

Dad nefol, diolchwn i ti am bartneriaeth USPG gydag Eglwys Anglicanaidd Melanesia. Bendithia eu cydweithio â doethineb, amynedd a gweledigaeth.



DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# MAI 17-23

## CHWALU FFINIAU : CYFIAWNDER RHYWIOL YM MALAWI

**Tamara Khismisi – Cydlynydd Prosiectau, Eglwys Anglicanaidd Malawi**

Amcan yr Ymgyrch i Hyrwyddo Cyfiawnder Rhywiol trwy Addysg Merched, a gefnogir gan USPG, yw ceisio ymateb i gyfraddau isel o barhau mewn addysg a throsglwyddo o un lefel o addysg i'r nesaf ymhlith merched yn ardaloedd gwledig Malawi, lle mae gorfodi plant i briodi a mynediad cyfyngedig at wybodaeth am iechyd atgenhedlu rhywiol yn rhwystrau sylweddol. Mae'r rhaglen, a weithredwyd yn ardaloedd Mchinji a Chiladzulu yn Eglwys Anglicanaidd Malawi, yn galluogi arweinwyr cymunedau ffydd, awdurdodau lleol a gwirfoddolwyr cymunedol i ddadlau dros addysg i ferched. Trwy godi ymwybyddiaeth, dylanwadu ar bolisi, a phartneru gyda grwpiau sy'n ymgyrchu dros hawliau merched, mae'r rhaglen yn hyrwyddo newid cynaliadwy ac yn creu hinsawdd sy'n rhoi cefnogaeth i ferched barhau yn yr ysgol.

Un enghraifft ddisglair o newid yw Lina*, merch yn ei harddegau o Blwyf Kapiri, Eglwys Anglicanaidd Sant Pedr yn Mchinji. Ni fu bywyd yn hawdd i Lina – roedd ei theulu, a ddibynnent ar amaethu ar fferm fechan, yn ei chael yn anodd i gael dau ben llinyn ynghyd, a bu'n rhaid iddi aros adre' o'r ysgol yn aml er mwyn helpu ar y fferm. Yn ychwanegol at hyn, roedd prinder addysg iechyd misglwyf yn gadael nifer o ferched fel Lina heb gyfarwyddyd na chefnogaeth.

Diolch i ymgyrch Eglwys Anglicanaidd Malawi, dechreuodd bywyd Lina newid. Cafodd gyfarwyddyd am ei hiechyd a'i hawliau, dysgodd sut i ofalu am ei hylendid misglwyf gydag urddas, a chafodd wisg ysgol â'i galluogodd i fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Heddiw, mae Lina yn eistedd yn hyderus yn Nosbarth 7, yn mynychu'r ysgol yn gyson ac yn breuddwydio am fynd ymlaen i addysg uwch yn y dyfodol.

*enw wedi'i newid



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, MAI 17

Darllenwch a myfyriwch ar Ioan 17:1-11

## DYDD LLUN, MAI 18 – DYDD NEGES EWYLLYS DA IEUENCTID CYMRU I IEUENCTID Y BYD

Arglwydd, gweddïwn dros ferched Malawi, am i bob un ohonynt fod yn ddewr, am iddynt gael eu gwarchod, a chael y gefnogaeth sydd angen arnynt i ddal yn yr ysgol. Boed i addysg agor drysau i ddyfodol a breuddwydion pob merch.

## DYDD MAWRTH, MAI 19

Dad nefol, bendithia Eglwys Anglicanaidd Malawi wrth iddi ddadlau achos addysg i ferched. Nertha esgobion, offeiriaid plwyf, gwirfoddolwyr ac arweinwyr cymunedol i lefaru yn erbyn gorfodi merched i briodi, ac i hyrwyddo hinsawdd addysgol sy'n ddiogel a chefnogol.

## DYDD MERCHER, MAI 20

Dduw grasol, gweddïwn dros ferched fel Lina sy'n wynebu tlodi, yn gorfod cwtogi ar addysg, ac sydd heb gyfarwyddyd digonol am iechyd misglwyf ac atgenhedlu. Boed i bob un dderbyn y wybodaeth sydd ei hangen, deunydd hylendid misglwyf priodol, ac urddas iechyd personol i'w galluogi i fynychu'r ysgol yn hyderus.

## DYDD IAU, MAI 21

Arglwydd, cyflwynwn i ti ysbytai cenhadol megis ysbytai Sant Pedr, Sant Luc a'r Santes Ann ym Malawi. Gweddïwn y caiff meddygon, nyrsys, a staff y nerth, yr adnoddau a'r ddoethineb i ofalu am famau, plant, a theuluoedd mewn ardaloedd gwledig.

## DYDD GWENER, MAI 22

Dduw Dad, cyfarwydda arweinwyr lleol i sicrhau fod ysgolion yn ddiogel a chynhwysol, ac yn fannau lle gall pob merch ddysgu a ffynnu heb fraw na stigma.

## DYDD SADWRN, MAI 23

Dad nefol, diolchwn i ti am y bartneriaeth rhwng USPG ac Eglwys Anglicanaidd Malawi. Boed i'r cydweithio hwn barhau i gynnig addysg, gofal iechyd a chefnogaeth sy'n adlewyrchu dy gariad trawsnewidiol a'th galon dros gyfiawnder.

# MAI 24-30

## CARIO'R FFLAM

MYFYRDOD

**Carol Miller – Swyddog Cyfranogiad Eglwysi, USPG**

Ar adeg y Pentecost, cofiwn sut y bu i'r Ysbryd Glân ddod fel tân, gan gynnu calonnau'r disgyblion cyntaf a'u danfon nhw allan i'r byd. Y mae'r un Ysbryd yn parhau i ysbrydoli cefnogwyr USPG heddiw – pobl a gawsant eu harwain gan eu ffydd i hyrwyddo cenhadaeth, cyfiawnder a gofal, ar draws y cenedlaethau.

Gwasanaethodd rhai dramor: "Roeddwn yn genhades yn Zimbabwe o 1981 i 1985… Rwy'n cadw USPG a'r eglwys yn Zimbabwe yn fy ngweddïau." Rhannodd eraill eu sgiliau proffesiynol: "Bum yn gwirfoddoli'n gyntaf i USPG yn y llyfrgell yn Stryd Tufton ym 1980, ac yn fuan wedyn fe'm penodwyd yn Llyfrgellydd."

I rai, mae USPG yn rhan o'u treftadaeth: "Roedd fy mam yn genhades feddygol gyda SPG yn Delhi yn niwedd y 30au a dechrau'r 40au. Felly, mae wastad wedi bod yn rhan o'm hetifeddiaeth." Mae eraill wedi ymdeimlo â galwad eu bywyd drwy USPG: "Aethom i Dde Affrica rhwng 1983 ac 1991 – ac yn ddiweddarach fe ymunais â'r staff."

Ar adeg y Pentecost, rhown ddiolch am y cwmwl tystion hwn – pobl gyffredin sy'n cario fflam y ffydd, a'i throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf, ac yn ein hatgoffa fod yr Ysbryd yn dal i alw, yn dal i ddanfon, ac yn dal i rymuso pobl i wasanaethu byd Duw.

Mae USPG yn parhau'r genhadaeth hon heddiw. Gallwch chi fod yn rhan ohoni: trwy weddïo, gwirfoddoli, dod yn gyswllt yn eich plwyf neu'n gynrychiolydd yn eich esgobaeth, neu gyfrannu at brosiectau sy'n newid bywydau. Gyda'n gilydd, rydym yn cario'r fflam.

# GWEDDÏO

## DYDD SUL, MAI 24 – PENTECOST

Darllenwch a myfyriwch ar Ioan 20:19–23, gan ddathlu rhodd yr Ysbryd Glân.

## DYDD LLUN, MAI 25

Rhown ddiolch am bawb sy'n cynnal cenhadaeth USPG mewn gweddi, gwasanaeth a haelioni, a gofynnwn am i'w tystiolaeth ysbrydoli eraill i ddilyn yn eu llwybrau.

## DYDD MAWRTH, MAI 26

Ysbryd y Pentecost, una'r eglwys fyd-eang mewn cariad a gwasanaeth, a nertha waith partneriaid USPG ar draws y byd.

## DYDD MERCHER, MAI 27

Anadla dy dân i'n calonnau er mwyn i ni gael trosglwyddo fflam y ffydd i'r genhedlaeth nesaf, a chod leisiau newydd dros genhadaeth a gwasanaeth.

## DYDD IAU, MAI 28

Bendithia famau a phlant, a phawb sy'n dioddef afiechyd neu ddiffyg gofal, a nertha'r rhai sy'n gweini gofal lle mae angen.

## DYDD GWENER, MAI 29

Dwg gyfiawnder ac urddas i'r gorthrymedig a'r anghofiedig, a thywys USPG a'i bartneriaid yn eu cenhadaeth i fawrhau gwerth pob person.

## DYDD SADWRN, 30 MAI

Adnewydda ni fel pobl gweddigar a ffyddlon, fel y bydd fflam y Pentecost yn disgleirio yn ein heglwysi a'n cartrefi.






# PLANNWCH HADAU AR GYFER Y DYFODOL

Yn USPG, mae rhoddion ewyllys wedi galluogi rhai o’n gweithgareddau mwyaf trawsnewidiol i ffynnu, o ariannu hyfforddi diwinyddol yn Ne Asia, i gefnogi ymatebion brys i drychinebau naturiol a galluogi’n partneriaid ar draws y byd i ofalu am gymunedau sydd ar yr ymylon ac adeiladu heddwch parhaol.

Mae hanes USPG wedi’i adeiladu ar ffyddlondeb pobl sy’n credu fod yr efengyl yn cael ei byw, ei rhannu a’i harddangos yn y modd y byddwn yn trin ein gilydd, yn arbennig y rhai mwyaf bregus.



Y mae rhoddion ewyllys yn rhan o'r ffydd hon ar waith. Fe'i gwreiddir yn yr alwad Gristnogol i stiwardiaeth: i ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym, yn ystod ein bywyd ac wedyn, i wasanaethu eraill ac adeiladu Teyrnas Dduw.

“Annog hwy i wneud daioni, i fod yn gyfoethog mewn gweithredoedd da, i fod yn hael ac yn barod i rannu, ac felly i gael trysor iddynt eu hunain fydd yn sylfaen sicr ar gyfer y dyfodol, i feddiannu'r bywyd sydd yn fywyd yn wir.” (1 Timotheus 6:18–19)

Y mae'r ‘bywyd sydd yn fywyd yn wir’ ynglŷn â mwy na'r foment bresennol, ond ynglŷn â'r gwerthoedd a adawn ar ein hôl, y bobl a ddyrchafwn a'r ffydd a drosglwyddwn.



## WNEWCH CHI BLANNU HADAU AR GYFER Y DYFODOL? GYDA USPG, FE ALLWCH.

Mae rhoddion ewyllys yn bersonol iawn. Eu craidd yw cydberthynas. Maent ynglŷn â chariad at yr eglwys, a chysylltiad â'r genhadaeth fyd-eang, a chred nad yw ffydd yn gorffen gyda ni.

“Rwy'n sylweddoli na fyddaf yma i weld effaith fy rhodd, ond rwy'n ymddiried yn Nuw i'w defnyddio lle mae mwyaf o angen amdani.” – un o gefnogwyr USPG

Yn USPG, teimlem hi'n fraint i sgwrsio a cherdded gyda chi wrth i chi feddwl am y penderfyniad hwn.
I ddarganfod mwy am adael rhodd yn eich ewyllys, da chi cysylltwch â ni ar **legacy@uspg.org.uk** neu rhowch alwad ffôn i ni ar **020 7921 2200.**




USPG PARTNERS IN GLOBAL MISSION

@USPG GLOBAL

Registered Charity No : 234518

# PRAYER DIARY

## Thank you for praying with the World Church.

If you don't regularly receive the USPG prayer diary, we'd love for you to join with us in prayer.

☐ **Yes,** I want to pray with the World Church.
☐ **Yes**, I want to receive the e-newsletter.
☐ **Yes**, I want to receive the supporter magazine.

**Your details:**

Title...........First name .......................................Surname ...........................................

Address .........................................................................................................

.....................................................................................................................

Town/City ........................................................................Post code............................

Tel ..................................................Email .....................................................................

## Data protection

### Keeping in touch

USPG would like very much to keep you updated on our work and that of our partner churches and communities worldwide. Managing your details well is important to us and we would like to contact you in ways that work for you.

☐ **Yes,** I am happy to be contacted by email.
We may contact you by post and telephone. If you do not wish to hear from us or have a preferred contact method, simply get in touch with us at **info@uspg.org.uk**

When you give us your details, you'll be added to our secure database so we can communicate with you as you have indicated. You can read our full data privacy notice at **www.uspg.org.uk/privacy**

Please return to: **USPG, 5 Trinity Street, London SE1 1DB**
Call **020 7921 2200** or visit **www.uspg.org.uk**

**USPG**
5 Trinity Street
London
SE1 1DB

020 7921 2200

info@uspg.org.uk
www.uspg.org.uk/pray
@USPGglobal

ISSN 2631-4959
Registered charity number: 234518

USPG PARTNERS IN GLOBAL MISSION